

ADRODDIAD TROSOLWG CENEDLAETHOL ARCHWILIADAU SICRIFYDD

Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion



CYNNWYS

03	RHAGAIR	
05	HERIAU YN Y DYFODOL	
07	EIN DULL GWEITHREDU	
08	CRYNODEB	
13	CANFYDDIADAU ALLWEDDOL	SAFETY AND WELL-BEING IN CHILDREN AND ADULT SERVICES
35	CANFYDDIADAU ALLWEDDOL	PLANT SY’N DERBYN GOFAL
46	ATODIAD 1	METHODOLEG A DATA
51	ATODIAD 2	LLYTHYRAU GWERTHUSO PERFFORMIAD AC ARCHWILIADAU SICRWYDD

RHAGAIR

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cyfres o weithgareddau arolygu ac adolygu perfformiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng mis Medi 2020 a mis Gorffennaf 2021. Mae ein canfyddiadau yn cynnwys gweithgarwch adolygu perfformiad a gynhaliwyd gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau megis arolygiadau gwerthuso perfformiadau ag archwiliadau sicrwydd. Er hwylustod, yn yr adroddiad hwn, byddwn yn cyfeirio at yr holl weithgarwch gwerthuso perfformiad ac arolygu fel archwiliad sicrwydd.

Roedd hwn yn gyfnod pan oedd pobl ledled Cymru yn byw drwy heriau digynsail COVID-19. Gwyddom fod effaith COVID-19 wedi bod yn waeth i grwpiau penodol o bobl o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol; cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw mewn ardaloedd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, y rhai sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a'r rhai y mae angen cymorth arnynt yn eu cartrefi eu hunain neu mewn cartref gofal. Yn anffodus, collodd llawer o bobl eu bywydau. Mae bywyd pob un ohonom wedi newid ond dangosodd y pandemig y rôl hollbwysig y mae'r sector gofal cymdeithasol yn ei chwarae yn cefnogi pobl y mae angen iddynt gael eu diogelu fwyaf yn ein cymdeithas. Y gobaith nawr yw y bydd proffil uwch y sector yn parhau i wella dealltwriaeth y cyhoedd o werth gofal a chymorth o ansawdd da.

Ym mis Mawrth 2020, wrth i gyfraddau heintio gynyddu a'r cyfyngiadau symud cyntaf ddod i rym yng Nghymru, gwnaethom atal ein rhaglen o weithgarwch adolygu perfformiad rheolaidd dros dro er mwyn i awdurdodau lleol allu canolbwyntio'n llwyr ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Yn lle hynny, gwnaethom ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a oedd yn adlewyrchu'r angen i ni gynnal cydberthnasau mwy cefnogol ag awdurdodau lleol. Roedd

hyn yn cynnwys gweithgarwch adolygu, monitro ac ymgysylltu parhaus gydag uwch-arweinwyr mewn awdurdodau lleol, yn ogystal â chyfarfodydd â rhanddeiliaid ledled Cymru. Roeddem yn ystyriol o'n rôl sicrwydd ac yn ymwybodol ar yr adeg hon, yn fwy nag erioed, ei bod yn hanfodol i ni geisio sicrwydd, ar ran y cyhoedd, ynglŷn â diogelwch a llesiant pobl. Roedd hyn wedi'i gydbwysu yn erbyn yr angen i leihau'r risg o haint a pheidio â chreu unrhyw bwysau ychwanegol i awdurdodau lleol.

O fis Medi 2020 ymlaen, gwnaethom ddechrau ar raglen ddiwygiedig o archwiliadau sicrwydd. Gwnaethom ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy gydol y flwyddyn i ystyried y cryfderau a'r risgiau ym mhob awdurdod lleol er mwyn i ni allu canolbwyntio ar y meysydd lle byddai ein gwaith yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Y nod oedd deall sut roedd awdurdodau lleol yn parhau i ddiogelu pobl a hyrwyddo eu llesiant yn ystod y pandemig. Mae rhoi pobl yn gyntaf yn egwyddor allweddol yn ein dull gweithredu. Roedd hyn yn golygu sicrhau bod llais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wrth wraidd ein gwaith a'r dulliau a fabwysiadwyd gennym.



Yn achos plant a phobl ifanc o dan ofal yr awdurdod lleol, lleihaodd y pandemig eu gofal a'u gweithgareddau arferol. Gwnaethom gydnabod y risg benodol hon i'w llesiant. Felly, yn ogystal â holi am effaith y pandemig ar bobl, gwnaethom ofyn cwestiynau ym mhob awdurdod lleol am blant mewn gofal, a nodir y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

Y peth cyntaf a wnaethom oedd nodi ymarfer cadarnhaol sy'n sicrhau canlyniadau da i bobl. Gwnaethom edrych am gryfderau ond gwnaethom hefyd nodi cyfleoedd i awdurdodau lleol wella.

Yn ystod ein gweithgareddau archwiliad sicrwydd, gwnaethom siarad â mwy nag 800 o bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol neu gyda nhw neu sy'n cael profiad o wasanaethau o'r fath. Clywsom lawer o hanesion am y ffordd y llwyddwyd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl pan oedd awdurdodau lleol wedi cynnig cymorth cydgysylltiedig gyda byrddau iechyd lleol (BILLau) a phartneriaid eraill. Gwelsom gymunedau a gwirfoddolwyr yn targedu cymorth ar adeg pan oedd rhwydweithiau cymorth arferol llawer o bobl, megis gwasanaethau dydd, wedi cael eu hatal dros dro neu eu lleihau'n sylweddol. Clywsom hanesion am ymrwymiad aelodau unigol o staff i ddarparu cymorth yn wyneb anawsterau enfawr. Roedd y straen emosiynol ar bobl a oedd yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ac yn ymateb i'r galwadau yn amlwg i bob un o'n harolygwyr. Yn ddiau, mae ymateb i her mor fawr wedi effeithio ar staff ond nodwyd gennym fod pob aelod o weithlu'r sector gofal cymdeithasol yn llwyr ymrwymedig i barhau i gynorthwyo pob person y mae angen darparu gofal iddo a'i ddiogelu.



Hoffem ddiolch i'r nifer mawr o blant ac oedolion a siaradodd â ni, am roi mor hael o'u hamser a rhannu eu profiadau. Rydym yn cydnabod y pwysau enfawr y mae awdurdodau lleol wedi'u hwynebu wrth ddarparu gofal a chymorth. Maent wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â ni ac wedi cyfranogi yn ein rhaglen hyd yn oed ar yr adegau mwyaf heriol yn ystod y pandemig. Ni allaf orffen heb fynegi unwaith eto fy edmygedd o ymroddiad eithriadol pob aelod o staff gofal cymdeithasol ledled Cymru a diolch iddynt amdano.

G. Baranski

● GILLIAN BARANSKI

PRIF AROLYGYDD, AROLYGIAETH
GOFAL CYMRU

HERIAU YN Y DYFODOL



Cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol na welwyd mo'i debyg o'r blaen

Mae pryderon cynyddol ynghylch y cynnydd sylweddol yn y galw ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau cymdeithasol na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Rydym yn ymwybodol bod llawer o awdurdodau lleol yn gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu. Rydym hefyd yn gwybod bod llawer o bobl wedi gohirio gofyn am wasanaethau neu fod darpariaeth ofal wedi chwalu yn ystod y pandemig. Roedd hynny'n aml o ganlyniad i'r ffaith bod sefyllfaoedd pobl wedi dirywio a oedd yn golygu bod gwasanaethau yn gorfod delio ag ystod lawer mwy cymhleth o broblemau. Mae'r gofynion hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar lwythi achosion, a hyn, yn ei dro, yn rhoi pwysau sylweddol ar weithlu cyfyngedig sydd wedi lleihau ac sydd eisoes wedi blino ac yn arwain at asesiadau gohiriedig a rhestrau aros hirach. Gall y pwysau hyn roi straen ar waith partneriaeth a allai ddadwneud y gwaith da a welwyd yn ystod y pandemig. Addasodd gwasanaethau yn gyflym iawn er mwyn ymateb i heriau COVID-19 ond, wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae awdurdodau lleol yn wynebu gofynion ychwanegol. Mae ystyried sut y gellir trefnu ac ariannu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn bodloni'r gofynion hyn a sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy, bellach yn her fawr i awdurdodau lleol.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae manteision gwaith partneriaeth cryf rhwng gwasanaethau ieuchyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach er mwyn creu dull system gyfan, wedi'u dangos yn glir yn ystod y pandemig. Cafodd cryn nifer o rwystrau eu goresgyn drwy gydweithio. Mae angen gwella systemau er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau cynaliadwy a rennir i bobl ac yn atal unigolion rhag dychwelyd i weithio ar eu

pen eu hunain, lle y bydd rhaniadau'r cydbwysedd cyllido a gweithio mewn partneriaeth yn ehangu, gan beri risg y bydd pobl yn cwmpo drwy'r bylchau.

Recriwtio a chadw gweithlu.

Mae'n argyfwng o ran recriwtio a chadw gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol. Os nad eir i'r afael â hyn ar lefel genedlaethol, mae risg na all awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol. Gallai'r effaith ar fywydau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau arwain at sefyllfa lle na chaiff anghenion cymwys eu diwallu am nad oes fawr ddim cymorth a dim dewis o gwbl ar gael i bobl. Roedd sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau addas yn destun pryder cenedlaethol cyn y pandemig. Mae COVID-19 wedi creu storm berffaith, gan newid sefydlogrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol yn sylweddol. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r argyfwng staffio. Er enghraifft, clywsom am rai adrannau, lle roedd heriau penodol o ran recriwtio, a oedd yn ymgysylltu ag asiantaethau er mwyn sicrhau bod cyflenwad sefydlog o ymarferwyr ar gael: clywsom am ddull 'tyfu eich hun', sy'n helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol. Bydd sicrhau bod digon o staff profiadol i oruchwylio gweithwyr sydd newydd gymhwyso yn her yn y dyfodol.

Gwendidau mewn gwasanaethau cymorth cartref

Mae'r pandemig hefyd wedi cadarnhau bod gwendidau mewn rhannau o'r sector gofal. Mae'n bryd mynd i'r afael â chymhlethdod diangen er mwyn sicrhau bod mwy o sylw yn cael ei roi i ansawdd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae [Ailgydbwyso gofal a chymorth \(2021\)](#) yn cynnig bod angen atgyfnerthu ac ailalinio'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cymdeithasol mewn ymateb i'r amrywiaeth o heriau y mae'r sector yn eu hwynebu ac er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn seiliedig ar yr hyn a nodwyd gennym, mae'n amlwg bod diffyg capasiti o ran cymorth cartref yng Nghymru. Clywsom mai effaith hyn yw bod pecynnau gofal yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleol, bod mwy o bwysau ar ofalwyr di-dâl, bod pobl yn cael eu rhoi ar restrau aros hir a bod rhai pobl yn gorfod ymdopi heb ofal a/neu aros yn yr ysbyty am fwy o amser. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried cynaliadwyedd darparwyr gofal yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael.

Os na chaiff y sector gofal cymdeithasol ei ddiwygio'n sylweddol, mae risg gynhenid y bydd costau yn cynyddu, sy'n golygu na fydd cymorth tymor hwy yn diwallu anghenion y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd ystyried effaith 'COVID hir', a deall sut mae hyn yn effeithio ar bobl sy'n cael gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae [gwaith ymchwil](#) yn awgrymu bod COVID hir yn fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn. Bydd angen i awdurdodau lleol weithio gyda'u partneriaid er mwyn amrywiaethu a chomisiynu gwahanol fathau o wasanaethau gan ddefnyddio [Llwybr Cymunedol Cymru Gyfan ar gyfer COVID Hir](#).

Prinder lleoliadau yn y sector gofal plant

Mae angen cymorth ar blant yn llawer iau oherwydd effaith emosiynol ac ymddygiadol profiadau o gamdriniaeth. Mae'n anodd cael lleoliadau gofal preswyl a gofal maeth i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r problemau emosiynol ac ymddygiadol mwyaf cymhleth. O ganlyniad, mae plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi ac weithiau y tu allan i Gymru. Nod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a'i huchelgais a'i hymrwymiad i leihau ac, yn y pen draw, ddileu [elw o wasanaethau gofal plant](#) yw ailgydbwyso'r sector. Fodd bynnag, yn y byrdymor, gallai'r fenter hon wanhau'r sector ymhellach, sy'n golygu y byddai angen i awdurdodau lleol gwmpasu dull gweithredu gan ddefnyddio gwaith partneriaeth i lywio'r farchnad er mwyn creu capasiti cynaliadwy.

Eiriolaeth

Yn seiliedig ar yr hyn a welsom, mae angen sicrhau bod gwasanaeth eirioli annibynnol i helpu pobl i gael eu clywed a rheoli eu bywydau, ar gael yn gyson er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gwerthfawr hwn yn cael ei hyrwyddo.

Cymorth i Ofalwyr

Mae gofalwyr yn bartner hanfodol mewn gofal a gallant fod yn gymwys i gael cymorth p'un a oes gan yr unigolyn y maent yn gofalu amdano anghenion cymwys ai peidio. Nodwyd gennym anghysondebau o ran gofalwyr yn cael cynnig asesiadau fel rhan o'r drefn ac ansawdd yr asesiadau a gwblhawyd. Lle mae pobl wedi cael cymorth yn ystod y pandemig, nodwyd gennym fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Felly, mae cymorth gan yr awdurdod lleol yn fuddiol i bobl sy'n cyflawni rôl ofalu. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen mwy o waith datblygu er mwyn gwella gweithgarwch ymgysylltu â gofalwyr a chynnig asesiadau yn gyson. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cyd-gynhyrchu ar sail cydberthynas gyfartal rhwng ymarferwyr, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Cyllid grant

Clywsom am yr effaith ar barhad gwasanaethau a'r pryder cynyddol ynghylch hynny os na pharheir i ddarparu grantiau. Mae ansicrwydd ynglŷn â ffrydiau cyllido byrdymor yn effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer plant ac oedolion. Mae Gweinidogion wedi cymeradwyo cronfa buddsoddi refeniw pum mlynedd newydd a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2022 er mwyn adeiladu ar waith y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid a ddefnyddir i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer yr oedolion, y plant a'r bobl ifanc fwyaf cymhleth a'r gwersi a ddysgwyd o'r cronfeydd hynny. Mae hyn yn darparu cyllid tymor hwy cynaliadwy sydd, yn ei dro, yn rhoi tawelwch meddwl i bawb sy'n datblygu darpariaeth benodol o leoliadau. Gall awdurdodau lleol ddechrau cynllunio a datblygu gwasanaethau ar gyfer y tymor hwy.

Mae AGC yn cydnabod bod angen i bob un ohonom weithio tuag at sefydlu dull 'system gyfan' a pharhau i ganolbwyntio ar wneud hynny, gan sicrhau bod pobl ifanc a phlant wrth wraidd y system a'u hamgylchynu â gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol lleol cadarn sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion ac sy'n cysylltu â'i gilydd yn ddi-dor.

Rydym yn talu teyrnged i weithlu'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru am eu hymroddiad i ofalu am bobl a'u gwaith caled yn ystod pandemig COVID-19, sy'n parhau i darfu ar y sector a chyflwyno heriau mawr. Wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig, mae cyfleoedd i ail-lunio a diwygio gwasanaethau ond bydd angen rheoli heriau yn y dyfodol yn ofalus hefyd er mwyn sicrhau y [Gallwn Ddiogelu Cymru Gyda'n Gilydd](#)¹.

¹ Drakeford, M. AS Prif Weinidog Cymru. 3 Gorffennaf 2020. Datganiad Ysgrifenedig: Adolygu'r Cyfyngiadau Symud a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

EIN DULL GWEITHREDU

Rhwng mis Medi 2020 a mis Gorffennaf 2021 gwnaethom gwblhau 19 o archwiliadau sicrwydd ledled Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau.

Am y chwe mis yn union cyn y pandemig roedd ein gwaith wedi canolbwyntio ar brofiadau plant anabl a'u teuluoedd. Roeddem wedi cwblhau gweithgarwch arolygu mewn tri awdurdod lleol yn ogystal â choladu hunanwerthusiadau. Oherwydd pwysigrwydd y gwaith hwn, ac effaith y pandemig ar y grŵp penodol hwn, gwnaethom gwblhau'r gwaith fel rhan o'n rhaglen ddiwygiedig mewn wyth awdurdod lleol. Caiff canfyddiadau'r gwaith hwn gyda phlant anabl a'u teuluoedd eu nodi mewn adroddiad ar wahân a gyhoeddir yn fuan.

Mae pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith ar gyfer pob un o'n archwiliadau sicrwydd:

- **Pobl - llais a rheolaeth**

Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofawyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau?

- **Atal**

I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

- **Partnerships and Integration**

I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn gallu sicrhau eu hunain eu bod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn ystod y pandemig mewn ffordd gadarnhaol.

- **Llesiant**

I ba raddau y mae awdurdodau lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

O fewn y fframwaith hwn gwnaethom ofyn yn benodol y ddau gwestiwn cyffredinol canlynol:

01. Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofawyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
02. Yr hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i atal yr angen i blant gael eu derbyn i'r system gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Gwnaethom fabwysiadu dull gweithredu pragmatig, hyblyg a seiliedig ar risgiau, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i nodi dulliau sy'n adlewyrchu'r amgylchedd presennol orau. Gwnaethom sicrhau dyletswydd gofal gan ymgymryd â'r holl weithgarwch yn rhithwir; gwnaethom gyfarfod â phobl ar-lein neu ddefnyddio'r ffôn a chyrru ffeiliau achos o bell.

Deilliodd ein canfyddiadau o nifer o ddulliau gan gynnwys: adolygu ffeiliau achos, grwpiau ffocws, cyfweiliadau ac arolygon. Gwnaethom siarad ag arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid yn ogystal â gwrando ar oedolion a phlant a'u teuluoedd/gofawyr (gweler atodiad 1).



CRYNODEB CANFYDDIADAU ALLWEDDOL



CRYNODEB | CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Pobl

LLAIS A RHEOLAETH

- Lleisiau a Glywyd a Dewisiadau a Barchwyd
- Rheolwyr Ymrwymedig a Gweithlu Ymroddedig
- Eiriolaeth
- Capasiti'r Gweithlu

Lleisiau a Glywyd a Dewisiadau a Barchwyd

Ledled Cymru, nodwyd gennym fod lleisiau oedolion a phlant yn cael eu clywed, ar y cyfan, bod eu dewisiadau yn cael eu parchu a bod y canlyniadau a nodwyd ganddynt eu hunain yn aml yn cael eu cyflawni. Nodwyd gennym fod ymarferwyr yn rhagori mewn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth ag oedolion a phlant, gan eu helpu i nodi'r hyn sydd bwysicaf iddynt.

Rheolwyr ymrwymedig a gweithlu ymroddedig

Dangosodd rheolwyr a staff eu bod yn gallu addasu i amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym yn ystod y pandemig. Yn ddiau, roedd staff gwasanaethau cymdeithasol ar bob lefel wedi gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod yr hyn a oedd yn bwysig i bobl yn parhau i fod wrth wraidd eu hymarfer ac wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19.

Eiriolaeth

Gellid atgyfnerthu'r ddarpariaeth eirioli a gynigir i blant sy'n derbyn gofal a'u rhieni/gofalwyr. Nid oedd llawer o blant a/neu rieni yn deall pwysigrwydd y cymorth a oedd yn cael ei gynnig yn llawn.

Capasiti'r gweithlu

Nodwyd gennym fod recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol medrus a phrofiadol yn achosi problemau mewn llawer o ardaloedd mewn awdurdodau lleol gwledig a threfol. Mae recriwtio staff i ymgymryd â rolau gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau i blant yn benodol yn parhau i fod yn heriol.

Atal

- Atal a Chymorth
- Ymrwymiad i Leihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gofalwyr
- Capasiti Gwasanaeth

Roedd dulliau atal a chymorth cynnar yn cael eu hymgorffori'n dda

Nodwyd gennym fod dulliau atal a chymorth cynnar gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer. Roedd y dulliau gweithredu hyn yn cefnogi ymgyrch genedlaethol ym mhob awdurdod yng Nghymru i diwallu anghenion cymunedau i sicrhau bod gwasanaethau'n dod yn gynaliadwy.

Mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth uchel i awdurdodau lleol ledled Cymru

Mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a'u dychwelyd adref i'w rhieni, neu ddiddymu gorchmynion gofal, yn flaenoriaeth uchel i bob gwasanaeth cymdeithasol yng Nghymru. Gwelwyd y canlyniadau gorau pan oedd gan blant leoliadau sefydlog a oedd yn diwallu eu hanghenion ac yn helpu i gyflawni eu nodau hirdymor.

Ni chafodd pob gofalwr ddigon o gefnogaeth yn ystod y pandemig

Rhoddodd llawer o'r gwasanaethau y mae gofalwyr yn dibynnu arnynt y gorau i weithredu yn ystod y pandemig. Er i ni weld enghreifftiau o ofalwyr yn cael cynnig cymorth, dywedodd rhai gofalwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael i ofalu amdanynt eu hunain ac roedd hynny wedi cael effaith ddifrifol ar rai gan arwain at drefniadau gofal yn chwalu.

Nid oedd gan wasanaethau ddigon o adnoddau i ateb y galw

Yn ddiau, mae'r heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 wedi cynyddu'r pwysau ar allu gwasanaethau i roi dewisiadau i blant ac oedolion o ran y math a'r lefel o ofal a chymorth sydd eu hangen i hyrwyddo annibyniaeth a diogelwch.

Partneriaeth ac Integreiddio

- Partneriaeth Gydweithredol
- Comisiynwyr Cefnogol
- Llwyfannau Digidol
- Cymorth Iechyd Meddwl

Bu partneriaid yn cydweithio drwy gydol y pandemig

Yn ystod y pandemig, gwelsom fod mwy o ymrwymiad i gydweithio rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid. Yn gyffredinol, gwelsom welliannau cadarnhaol mewn cydberthnasau gwaith rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol ar adegau o argyfwng yn ystod y pandemig. Un o'r cryfderau mawr ledled Cymru oedd ymdrech gwirfoddolwyr a grwpiau cymorth cymunedol i helpu pobl yn ystod y pandemig.

Mae awdurdodau lleol yn gomisiynwyr cefnogol

Cafodd prosesau cyfathrebu, gweithgarwch ymgysylltu a chymorth rhwng awdurdodau lleol, pobl, partneriaid, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eu gwella yn ystod y pandemig. Yn ddiau, roedd ysbryd o gydweithio er mwyn sicrhau bod cymorth yn parhau i gael ei ddarparu o fewn cyfyngiadau COVID-19.

Nid yw Llwyfannau Digidol yn cefnogi ymarfer

Cyfeiriodd pob awdurdod lleol at anawsterau wrth ddefnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dro ar ôl tro clywsom am broblemau rheolaidd yn ymwneud â chael gafael ar wybodaeth a'i lanlwytho.

Diffyg cymorth iechyd meddwl

Mae diffyg cymorth iechyd meddwl i oedolion, plant a phobl ifanc o hyd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Clywsom fod y trothwyon ar gyfer mynediad at wasanaethau yn uchel, fod ymyriadau yn fyr a bod cymorth yn cael ei dynnu'n ôl ar adegau pan fo'r risg o niwed yn uchel iawn.

Llesiant

- Hyrwyddo Llesiant
- Diogelu
- Cadw Cofnodion
- Asesiadau ac Adolygiadau

Roedd pobl yn cael eu cefnogi er mwyn cynnal a hyrwyddo eu llesiant

Gwelsom lawer o enghreifftiau da o awdurdodau lleol yn cefnogi pobl er mwyn cynnal a hyrwyddo eu llesiant. Gwelsom fod pobl yn aml yn chwarae rhan weithredol yn y broses o gynllunio eu pecynnau gofal a chymorth eu hunain a bod gwaith uniongyrchol cadarnhaol gyda llawer o blant wedi parhau drwy gydol y pandemig.

Parhawyd i gyflawni dyletswyddau diogelu statudol yn ystod y pandemig

Gwelsom dystiolaeth dda o arferion diogelu mewn gwasanaethau plant ac oedolion ledled Cymru yn unol â'r gofynion statudol a bod ymarferwyr priodol a chynrychiolwyr asiantaethau partner perthnasol yn bresennol mewn cyfarfodydd diogelu.

Mae arferion cadw cofnodion gwael yn tanseilio ymarfer

Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, nid oedd y cofnodion achos a adolygwyd yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol y staff. Yn benodol, nid oedd rhywfaint o'r gwaith uniongyrchol dychmygol a wnaed gyda phobl wedi'i gofnodi.

Ansawdd ac amseroldeb asesiadau ac adolygiadau

Nodwyd gennym y gallai ansawdd asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth gael ei wella mewn llawer o ardaloedd. Gellid gwella asesiadau a chynlluniau drwy nodi'n gliriach pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau pobl eu cyflawni ac y gellir eu mesur.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Diogelwch a llesiant
mewn gwasanaethau
plant ac oedolion

DIOGELWCH A LLESIANT MEWN GWASANAETHAU PLANT AC OEDOLION

Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?

Pobl LLAIS A RHEOLAETH

Gwnaethom ofyn:

Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwyso hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

Clywyd lleisiau pobl a pharchwyd dewisiadau

Dywedodd llawer o bobl, gan gynnwys darpar ddefnyddwyr gwasanaethau a/neu ofalwyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, wrthym ei bod yn hawdd cysylltu ag awdurdodau lleol; dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn mynd ati i wneud y 'Cynnig Rhagweithiol' a bod llawer o wasanaethau yn cael eu darparu yn newis iaith y defnyddiwr. At hynny, lle y bo angen, mae awdurdodau lleol wedi datblygu arbenigedd i ymgysylltu a chyfathrebu â chymunedau penodol drwy ddefnyddio cyfieithwyr neu, er enghraifft, drwy drosglwyddo plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches o'r naill awdurdod i'r llall.

Ym mhob awdurdod lleol mewn gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion, nodwyd gennym fod materion yn ymwneud â chydysniad, eiriolaeth a galluedd meddyliol yn cael eu hystyried yn amserol. Nodwyd gennym fod pobl yn cael cynnig gwasanaethau eirioli fel arfer ac, mewn rhai awdurdodau lleol, gwelsom dystiolaeth o nifer bach o bobl yn cael eu cefnogi'n ffurfiol ac yn anffurfiol gan eiriolwr. Fodd bynnag, mewn llawer o ardaloedd nid oedd gwasanaethau eirioli yn cael eu darparu.

Ymarfer

Yng Ngheredigion, gwelsom enghraifft o wasanaeth eirioli ffurfiol yn cael ei geisio'n briodol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal mewn perthynas â phrofedigaeth a chyllid.

Ledled Cymru, gwelsom fod lleisiau pobl yn cael eu clywed, ar y cyfan, bod eu dewisiadau'n cael eu parchu a bod canlyniadau a nodwyd ganddynt yn bersonol yn cael eu cyflawni'n aml. Nodwyd gennym fod ymarferwyr yn rhagori mewn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl, gan eu helpu i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mewn rhai awdurdodau lleol, gwelsom ddiwylliant o gyd-gynhyrchu, cydweithio a rhannu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig.

Gwelsom enghreifftiau o gydberthnasau gwaith da parhaus rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n derbyn gofal a/neu ofal a chymorth. Roedd yr ymarferwyr yn agored ac yn onest am yr opsiynau a oedd ar gael i bobl. Yn yr achosion gorau, gwelsom bobl yn cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau, er enghraifft, presenoldeb rhieni mewn cyfarfodydd cyfreithiol, cynadleddau ac adolygiadau. Clywsom lawer o ymatebion cadarnhaol gan rieni, unigolion a gofalwyr am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan awdurdodau lleol.

² Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn am hynny

Pobl

LLAIS A RHEOLAETH

“

Disgrifiodd gofalwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr y cymorth a gafodd yntau a'i berthynas fel “tremendous” (“anhygoel”) ac aeth yn ei flaen i nodi sut y bu'r cymorth o fudd i'w lesiant.

“

Dywedodd rhiant ym Mlaenau Gwent wrthym sut roedd cymorth gan weithiwr wedi'u helpu i wella eu sgiliau rhianta a safon y gofal yr oeddent yn ei gynnig i'w plentyn – mae hi yn ein helpu i ganolbwyntio ar ymddygiad ac ymatebion a chydberthnasau. Mae'n dŷ gwahanol nawr. Mae'r teulu'n llawer hapusach.

“

Siaradodd (y Therapydd Galwedigaethol) â mi am yr hyn a fyddai'n ddefnyddiol... (A darparodd) ystafell gawod, rheiliau, lifft risiau, codwyr, ysgol risiau, larwm cymunedol - roedd hynny o gymorth mawr i mi. Doedd dim angen i mi aros yn hir am y cyfarpar. Roeddent yn ddefnyddiol iawn er mwyn fy helpu i fynd o gwmpas a fy nghadw i'n ddiogel. Mae gofalwyr yn galw bob dydd - defnyddiol iawn. Rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth hwn. Gofalwyr cyson...cefa's rywfaint o gymorth ailalluogi preswyl - tra roeddent yn cwblhau'r gwaith yn fy eiddo - Helpodd i fy nghodi nôl ar fy nhraed. Mae'r ALI wedi gwneud popeth yn dda. Doedd dim y gallent fod wedi ei wneud yn well. (Oedolyn o Sir Fynwy).

“

Clywsom gan oedolyn ag anabledd dysgu yn Sir Gaerfyrddin am y ffordd roedd wedi cael budd o'r cymorth a gafodd gan weithiwr cymdeithasol a drefnodd iddo gael cymorth technolegol drwy “lifeline”. Gwnaeth hyn ei helpu i deimlo'n ddiogel a pharhau'n annibynnol oherwydd, petai angen unrhyw gymorth arno, gallai wasgu'r crogdlws i alw am help.

“

Rwy'n fodlon ar y cymorth rwy'n ei gael gan y gweithiwr cymdeithasol. Mae o gymorth mawr - mae wedi bod yn dda - rwy'n cyd-dynnu'n dda â hi...Mae'n hawdd cysylltu â hi. Does ond rhaid i mi ffonio - mae'r ysgrifenyddes yn trosglwyddo'r neges iddi. Mae'n fy ffonio nôl...Mae'n dda am gysylltu ag asiantaethau eraill er mwyn cael y cymorth sydd ei angen. Mae gennyf 'lifeline' - helpodd hi i'w gael...Rwy'n teimlo'n gadarnhaol am y cymorth a gaf - byddwn yn rhoi sgôr uchel iddo. (Oedolyn o Sir Gaerfyrddin)



Pobl LLAIS A RHEOLAETH



Mewn awdurdodau lleol lle mae model gwaith cymdeithasol clir wedi'i fabwysiadu er mwyn darparu fframwaith ymarfer, gwelsom ffocws cryf ar gynnydd a phrofiadau pobl a phrosesau sicrhau ansawdd a oedd yn mesur effaith y model. Er bod y graddau roedd modelau ymarfer ffurfiol wedi'u hymgorffori ledled Cymru yn amrywio, ym mhob awdurdod lleol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, roedd dulliau cydweithredol yn seiliedig ar gryfderau yn amlwg gyda llawer o bobl yn cael eu cefnogi i nodi canlyniadau personol a chyd-gynhyrchu cynlluniau i'w cyflawni. Er enghraifft, gwelsom lawer o awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i bobl am argaeledd taliadau uniongyrchol. Roedd hyn yn galluogi unigolion i wneud dewisiadau a chynnal rheolaeth wrth benderfynu sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth, neu anghenion cymorth gofawyr a'u canlyniadau. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi datblygu systemau carlam

Ymarfer

Yn arloesol yn Sir y Fflint, roedd gwefan yr awdurdod lleol yn ymwneud yn benodol â thaliadau uniongyrchol a chynorthwyyr personol. Mae cofrestr yn ceisio helpu dinasyddion a'u teuluoedd i chwilio am gynorthwyyr personol ac fel arall, yn ogystal â "hysbysebu" am gynorthwyyr personol i ddatblygu eu sgiliau.

ar gyfer taliadau uniongyrchol ac, mewn llawer o ardaloedd, cafodd y taliadau hyn eu defnyddio'n greadigol yn ystod y pandemig.

Roedd awdurdodau lleol yn arloesol o ran eu hymateb i gynnal cyswllt diogel â phobl yn ystod y pandemig

Ledled Cymru, gwelsom fod gan wasanaethau cymdeithasol gynlluniau clir ar waith er mwyn ateb yr heriau a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19. Roedd yn galonogol canfod tystiolaeth sylweddol a chyson o awdurdodau lleol yn ymateb yn brydlon yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau bod llinellau cyfathrebu yn parhau ar agor. Gwelsom lawer o enghreifftiau o ddulliau arloesol o gynnal cyswllt diogel â phobl er mwyn i gymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol allu cael eu darparu'n effeithlon.

Gwelsom fod defnydd helaeth yn cael ei wneud o dechnoleg, nid yn unig i gynnal cyswllt a sicrhau cyfathrebu, ond hefyd i barhau i ddarparu gofal a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau statudol i unigolion. Roedd gweithwyr proffesiynol gwahanol yn yr awdurdodau lleol, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner, yn addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio technolegol. Roedd awdurdodau lleol yn cysylltu â phobl dros y ffôn ac roeddent hefyd yn defnyddio dulliau rhithwir eraill, megis Facebook, Zoom, Microsoft Teams a WhatsApp. Gwelsom lawer o enghreifftiau o awdurdodau lleol yn addasu i ffyrdd newydd o weithio drwy ddarparu cyfarpar technolegol megis ffonau clyfar ac iPads yn uniongyrchol i bobl er mwyn iddynt ffonio aelodau o'r teulu/ffrindiau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein a defnyddio gwasanaethau megis ymgynghoriadau rhithwir â Meddygon Teulu.

Pobl

LLAIS A RHEOLAETH

Dysgu

Roedd gweithgarwch ymgysylltu ag elusennau yn effeithiol

Gweithiodd Cyngor Dinas Casnewydd gydag elusen leol i ailddosbarthu iPads a gliniaduron wedi'u hadnewyddu i bobl ifanc.

Roedd technoleg wedi llwyddo i ddarparu cymorth pan nad oedd yn bosibl cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Cyn y pandemig, roedd Dementia Actif Gwynedd yn darparu dosbarthiadau gweithgarwch corfforol 'DementiaGo' yn y gymuned i bobl â dementia ac oedolion hŷn er mwyn lleihau'r risg o ddatblygu dementia, i'r teulu, ffrindiau a gofalwyr. Roedd pobl yn cael budd o fod yn weithgar a chymryd rhan yn eu cymuned, gyda chymorth hyfforddwyr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd gweithgareddau o'r fath yn gwella hyder a llesiant y cyfranogwyr ac yn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu, gan leihau'r risg o ynysu cymdeithasol. Yn arloesol, roedd y dosbarthiadau 'DementiaGo' wedyn yn cael eu cynnal yn rhithwir ac roedd pobl yn gallu cymryd rhan gartref er mwyn cynnal eu llesiant corfforol ac emosiynol.

Mae darpariaeth amgen i wasanaethau rheng flaen yn darparu cymorth da ac mae gwasanaethau ataliol arloesol yn codi'r pwysau oddi ar wasanaethau rheng flaen

Yn Rhondda Cynon Taf, cyflwynwyd gwasanaeth ymatebwyr symudol gyda'r bwriad o atal galwadau i wasanaethau brys a darparu allgymorth a phecynnau o weithgareddau chwarae i bobl yn eu cartrefi eu hunain.



Pobl LLAIS A RHEOLAETH

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

Rheolwyr ymrwymedig a gweithlu ymroddedig

Rhaid canmol pob awdurdod lleol, a gefnogwyd gan wasanaethau darparwyr allanol a gomisiynwyd, gan gynnwys y trydydd sector, am y cymorth roeddent yn eu cynnig i'w weithlu gofal cymdeithasol cyfan, gan gynnwys uwch-arweinwyr, aelodau etholedig, rheolwyr a staff. Dangosodd ein harolygon staff a'n sgysiaid â staff yn ystod gwaith maes, fod uwch-arweinwyr yn weladwy ac yn hygyrch a bod y staff yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi'n llawn drwy gydol y pandemig. Dangosodd rheolwyr a staff eu bod yn gallu addasu i amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym, am fod llawer o awdurdodau wedi mabwysiadu dull gweithlu cyfan o reoli problemau a oedd yn codi o ganlyniad i'r pandemig. Er enghraifft, mwy o ddefnydd o drefniadau gweithio hyblyg, systemau dyletswydd newydd ac adleoli rhai aelodau o staff i weithio mewn cartrefi gofal annibynnol ar adegau pan oedd staff yn absennol o'r gwaith oherwydd COVID-19.

Yn ddiau, roedd staff gwasanaethau cymdeithasol ar bob lefel wedi gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod yr hyn a oedd yn bwysig i bobl yn parhau i fod wrth wraidd eu hymarfer ac wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19

Ymarfer

Yng Ngheredigion, clywsom fod pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ym methu â defnyddio gwasanaethau ar-lein yn aml ac, felly, fod ffonau symudol wedi'u darparu yn ystod y pandemig a oedd wedi helpu staff i gyfathrebu â nhw a darparu cymorth. Yn ddiau, roedd hyn wedi mynd i'r afael â phroblem ynysu ar gyfer rhai pobl am fod llai a llai o gyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau cymorth wyneb yn wyneb.



Ledled Cymru, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw, er eu bod wedi blino, fod eu morâl yn uchel a'u bod yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi. Nododd llawer o aelodau eraill o staff fod diwylliant cefnogol yn y gwasanaeth lle roeddent yn gweithio a bod y systemau cyfathrebu digidol wedi'u haddasu a oedd yn cael eu defnyddio drwy gydol y pandemig yn effeithiol o ran sicrhau bod cymorth y parhau i gael ei ddarparu.

Parhawyd i gynnal sesiynau goruchwyllo ffurfiol yn rheolaidd drwy gydol y pandemig ar gyfer y rhan fwyaf o staff gwaith cymdeithasol ac roedd y defnydd o lwyfannau digidol hefyd wedi'i gwneud yn bosibl i sesiynau goruchwyllo anffurfiol gael eu cynnal ac i gymorth gael ei ddarparu gan gymheiriaid mewn llawer o ardaloedd.

Ymarfer

Nododd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn Sir y Fflint a Chaerffili eu bod wedi cael eu cefnogi a'u sefydlu'n effeithiol heb unrhyw darfu ar oruchwyliaeth uwch, llwythi achosion wedi'u diogelu na threfniadau mentora. Yn yr un modd, roedd enghreifftiau cadarnhaol o fyfyrwyr yn gallu parhau â'u hyfforddiant a'u lleoliadau gwaith ac yn gallu manteisio ar brofiadau dysgu, megis drwy gyfleoedd i arsylwi ar ymarfer gan gadw pellter cymdeithasol.

Pobl LLAIS A RHEOLAETH

Symudwyd cyfarfodydd tîm ar-lein hefyd ac, mewn llawer o ardaloedd, cawsant eu haddasu o ran amllder a chynnwys er mwyn rheoli'r amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym yn fwy effeithiol a darparu cymorth ychwanegol i'r staff. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, parhawyd hefyd i ddatblygu'r gweithlu a hyfforddi staff gan ddefnyddio dulliau digidol drwy gydol y pandemig.

Mewn rhai awdurdodau lleol, llwyddwyd i ddarparu rhagor o gymorth drwy grwpiau mentora a sesiynau goruchwyllo gan gymheiriaid, a roddodd gyfle i ymarferwyr fyfyrion ar faterion yn ymwneud â gwaith achos a nodi ymatebion posibl i heriau. Er gwaethaf y cynnydd presennol yn y galw am wasanaethau cymdeithasol mewn llawer o ardaloedd, cynnydd na welwyd mo'i debyg o'r blaen, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a holwyd gennym fod llwythi achosion wedi parhau i fod yn hydrin a bod goruchwyliaeth rheolwyr yn ddigonol yn ystod y pandemig. Mewn ychydig o ardaloedd, byddai trefniadau mwy cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd llwythi gwaith, eu monitro a'u blaenoriaethu wedi bod yn fuddiol.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r ffyrdd roedd llesiant staff yn cael eu hyrwyddo. Er enghraifft, drwy sesiynau cwnsela cyfrinachol, sesiynau llesiant ac ymwybyddiaeth ofalgar a systemau hunangyfeirio i wasanaethau iechyd galwedigaethol yn ogystal â gweithgareddau tîm llawn hwyl ar-lein megis cwisiau. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn cael ei ddarparu i staff yn ôl yr angen.

Ymarfer

- Yn Sir y Fflint, yn debyg i lawer o awdurdod lleol eraill, roedd staff yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a oedd ganddynt wrth reoli eu llwyth gwaith proffesiynol yn ogystal â'u hamgylchiadau personol gan gynnwys darparu ar gyfer addysgu plant gartref. Roedd y staff hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod rheolwr y tîm ar gael ar ôl 4pm ar ddydd Gwener i roi cymorth ac arweiniad. Roedd morâl y staff hefyd yn cael ei gynnal drwy ddathlu gwaith da a wnaed yn rhithwir.
- Yng Nghaerffili, roedd y staff yn gwerthfawrogi'r ffaith bod llesiant a dysgu gweithredol yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y tîm lle roedd ffocws cyson ar lesiant staff. Roedd y staff yn gallu manteisio ar Gofal yn Gyntaf, Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, a ddisgrifiwyd gan un aelod o staff fel adnodd gwych.

Mae byd gwaith cymdeithasol yn wahanol iawn i'r hyn roeddwn wedi'i ddychmygu, yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyfforddiant, goruchwyliaeth a chyfarfodydd tîm i gyd yn rhithwir. Bydd yn braf cael cyfarfod â nhw wyneb yn wyneb.

“ Weithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso

Pobl LLAIS A RHEOLAETH

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Capasiti'r gweithlu

Ym mhob awdurdod lleol, cydnabuwyd bod recriwtio a chadw staff yn flaenoriaeth hanfodol i'r busnes. Serch hynny, nodwyd gennym fod recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol medrus a phrofiadol yn achosi problemau mewn llawer o ardaloedd lleol gwledig a threfol. Nodwyd gennym fod recriwtio staff i ymgymryd â rolau gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau i blant yn benodol yn parhau i fod yn heriol. Lle bu penodiadau yn bosibl, maent wedi tueddu i fod yn weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso yn fwy diweddar.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn ymateb yn syth drwy ddefnyddio staff asiantaeth er mwyn ceisio sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, gwelsom fod newid cyson

mewn gweithwyr wedi cael effaith negyddol ar y gallu i feithrin cydberthnasau â phobl ac ennyn eu hymddiriedaeth, yn arbennig plant a phobl ifanc. At hynny, mae hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar gyllidebau ac mae'r gronfa o staff asiantaeth profiadol â chymwysterau priodol yn lleihau'n gyflym.

Roedd pob un o'r awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt yn ymrwymedig i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Un cam hirdymor cadarnhaol i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn, sy'n cael ei gymryd gan nifer cynyddol o awdurdodau lleol, yw mabwysiadu dull 'tyfu eich hun' drwy gefnogi aelodau presennol o staff drwy'r brifysgol i gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol.



Atal

Gwnaethom ofyn:

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Parhaodd gwasanaethau cymdeithasol i fod yn hygyrch drwy gydol y pandemig

Roedd gwasanaethau drws ffrynt, gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau pwynt mynediad unigol (SPOC) wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod y pandemig. Gwelsom fod gwasanaethau yn ymateb i anghenion pobl o ran cefnogaeth, cymorth a diogelu. Yn yr ardaloedd gorau, llwyddwyd i gynnal trefniadau amlasiantaethol sefydledig, a oedd yn cynnwys systemau atgyfeirio amserol ac effeithlon a oedd yn cefnogi blaenoriaethu.

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

Ymgorffori dulliau atal a chymorth cynnar

Nodwyd gennym fod dulliau atal a chymorth cynnar yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer. Gwelsom, mewn rhai awdurdodau lleol, fod yr agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir sy'n ymwneud ag atal wedi cael llai o effaith yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, gwelsom ymdrech barhaus i drawsnewid a ddangoswyd gan ffocws corfforaethol ar atal fel ffordd o ddiwallu anghenion cymunedau a sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy. Darparwyd tystiolaeth o hyn gan uwch-arweinwyr ac aelodau etholedig a gyfwelwyd, a ddangosodd fod ganddynt ddealltwriaeth dda o fanteision mabwysiadu dull gweithredu ataliol, sail resymegol dros y cyfeiriad strategol ac uchelgais wedi'i ategu gan ddogfennaeth strategol gefnogol.

Mewn nifer bach o awdurdodau lleol, mae angen rhagor o waith i sicrhau gwasanaethau di-dor a chydgyssylltiedig sy'n atal anghenion rhag dwysáu ac sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl. Fodd bynnag, mae'n braf nodi fod dull integredig o ymdrin â chymorth cynnar yn datblygu, gan greu diwylliant ataliol drwy waith partneriaeth ar y cyd, dysgu myfyriol a rennir a systemau cyflawni cyson.

Ar y cyfan, gwelsom fod dull darbodus o ddyrannu adnoddau, gan sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir. Mae hyn yn atal cynnydd mewn angen ac yn gwella ansawdd taith pobl drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Darparwyd tystiolaeth o sicrhau dull atal amlasiantaethol hefyd gan baneli cymorth cynnar a roddodd enghreifftiau da o wasanaethau cymdeithasol a phartneriaid o'r sector statudol a'r trydydd sector yn ceisio sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

"I ddechrau roedd yn anodd cysylltu â'r gwasanaeth. Ond yn ystod y flwyddyn mae wedi dod yn haws. Felly, mewn gwirionedd, byddwn i wedi disgrifio'r sefyllfa fel un nad oedd yn hawdd flwyddyn yn ôl a bellach mae'n hawdd iawn".

Defnyddiwr gwasanaeth ym Mro Morgannwg

Ymarfer

- Yn Sir Fynwy, roedd y Tîm Datblygu Cymunedol a Phartneriaethau yn sgrinio pobl ar gronfa ddata gwasanaethau cymdeithasol oedolion cyn cysylltu â nhw i weld a oedd angen cymorth arnynt i gael bwyd neu gasglu meddyginiaethau. Y bobl y cysylltwyd â nhw oedd y rhai a oedd wedi bod mewn cysylltiad â'r cyngor yn flaenorol a'r bobl hynny ar y rhestr warchod. Cysylltwyd â bron i 3,000 o bobl dros gyfnod o ddwy i dair wythnos. Roedd y tîm yn defnyddio grwpiau o wirfoddolwyr i ddarparu cymorth.
- Yn debyg i feysydd eraill, yn Sir y Fflint, gwelsom gymorth wedi'i dargedu i oedolion gydag adnoddau cam-i-fyny/cam-i-lawr a chymunedol ar gael i gefnogi pobl; roedd hyn yn cynnwys gweithwyr dementia arbenigol, y gallu i gael gafael ar gyfarpar yn amserol, mân addasiadau, a thechnoleg gynorthwyol. Clywsom hefyd fod y dull sy'n canolbwyntio ar atebion ym maes iechyd meddwl yn atal pobl rhag gorfod cael gwasanaethau mwy dwys.

Atal

Dysgu

Mae darpariaeth y trydydd sector wedi bod yn fuddiol ac yn effeithiol o ran darparu cymorth

Yng Nghasnewydd, gwelsom fodel ymyrryd yn gynnar sy'n sicrhau bod modd i blant fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau a gefnogir gan y Panel Llesiant Gofod a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau statudol a thrydydd sector.

Mae trefniadau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol mewn rhanbarthau a byrddau iechyd a sefydliadau gwirfoddol perthnasol yn sicrhau manteision sylweddol

Ar ôl iddo gael ei gwblhau, bydd 'Bwthyn y Ddôl', sef prosiect ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd, yn wasanaeth llety a ddefnyddir i asesu anghenion cymhleth plant, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd plant yn cael budd o'r ffaith bod y gwasanaeth hwn yn un lleol a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu mewn un lleoliad gan weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol, a fydd yn lleihau'r angen i gael sawl apwyntiad mewn gwahanol leoliadau. Yn yr un modd, sefydlwyd Hwb Cymunedol Sir Benfro (yr Hwb) yn gyflym ar ddechrau'r pandemig fel 'siop un stop'. Roedd yr Hwb yn helpu i gydgyssylltu gwaith gwirfoddol yn y gymuned er mwyn cefnogi pobl yr oedd angen cymorth arnynt, o siopa i alwad gyfeillgar dros y ffôn. Fe'i sefydlwyd fel partneriaeth rhwng Cyngor Sir Penfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Delta Well-being. Roedd cydberthnasau a fodolai eisoes a rhwydweithiau sefydledig yn y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, wedi galluogi'r Hwb i gysylltu â 100 o rwydweithiau a sefydliadau newydd a sefydlwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19. Yn ei anterth, roedd yr Hwb yn cael cannoedd o alwadau y dydd, gan ddangos llwyddiant sefydliadau yn dod at ei gilydd i gysylltu â chymunedau.

Roedd prosiectau cymunedol arloesol yn gwella ansawdd bywyd pobl yn ystod y pandemig

Dosbarthodd Cyngor Sir Gwynedd focs Nadolig i bawb dros 70 oed mewn un pentref Datblygwyd cynllun ffrindiau gohebol hefyd er mwyn cysylltu plant â phobl hŷn, a oedd o fudd i'r ddwy genhedlaeth. Clywsom hefyd am fanciau bwyd sydd ar agor i bawb mewn angen heb feini prawf, ac enghreifftiau o lawer o weithgareddau ar-lein i gysylltu pobl drwy ddiddordebau a rennir, megis gŵyl gyrfaedd ar-lein.

Roedd pobl yn cael eu cefnogi i adfer/cadw annibyniaeth a gynhaliwyd drwy gydol y pandemig.

Roedd trefniadau ymarfer mewn cymorth cynnar ac atal, a oedd yn cyd-fynd â dulliau gweithredu seiliedig ar gryfderau, yn helpu pobl i ddatblygu eu galluoedd, eu dulliau ymdopi a'u cryfderau.



Atal

Gwelsom lawer o enghreifftiau ledled Cymru o waith partneriaeth amlasiantaethol effeithiol i helpu pobl i adfer/cadw annibyniaeth gan gynnwys mwy o ddefnydd o dechnoleg i gefnogi diogelwch pobl yn ogystal â lleihau unigrwydd ac ynysu. Hefyd, cafodd gweithio mewn partneriaeth effaith gadarnhaol ar brosesau casglu a rhannu gwybodaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau seiliedig ar risgiau.

Ymarfer

- Yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, mae prosiect Cysylltu yn darparu gwasanaeth llinell achub bywyd a theleofal gwell Darparwyd cyfarpar unigol pwrpasol i gefnogi llesiant y bobl gyda chynlluniau'n cael eu monitro drwy alwadau rhagweithiol ac ymateb lles 24/7 yn canolbwyntio ar atebion cymunedol. Mae hyn yn galluogi pobl i gael eu cefnogi gartref, gan osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty neu ofal preswyl lle bynnag y bo'n bosibl.
- Mae Gwasanaeth Cyngor ar Awtistiaeth Rhithwir ac Ar-lein yn gydweithrediad rhwng Cyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sy'n rhoi cyngor a chymorth i rieni/gofalwyr er mwyn helpu i reoli ymddygiadau heriol megis ymddygiadau sy'n gysylltiedig â phroblemau cysgu. Mae'r gwasanaeth yn hygyrch ac yn amserol am fod rhieni a gofalwyr yn gallu hunanatyfeirio heb orfod dibynnu ar weithiwr proffesiynol i wneud atgyfeiriad ar eu rhan.
- Ym Merthyr Tudful, mae Gwasanaeth Swyddogion Cymorth sy'n Feddygon Teulu yn gweithredu fel cyfrwng rhwng gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol. Wrth i bobl fynd i'w meddygfa gellir eu helpu gyda phroblemau megis gorbryder, sy'n cynnig cyfle cynnar i atal anghenion rhag cynyddu.

Gwelsom enghreifftiau o asiantaethau yn cydweithio i leihau'r pwysau ar wasanaethau ysbyty, gan geisio hyrwyddo annibyniaeth a helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i fanteisio ar gyfleoedd adsefydlu perthnasol a phriodol. Mewn rhai ardaloedd, mae ymatebwyr cymunedol, gan gynnwys gwirfoddolwyr, wedi helpu pobl i aros gartref yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty. Mewn llawer o ardaloedd eraill, datblygwyd 'model rhyddhau i asesu' er mwyn helpu pobl i setlo yn eu cartref ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

Gwelsom dystiolaeth o ddysgu o gwynion blaenorol yn helpu i wella ymarfer yn ogystal â thystiolaeth o adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd hyblyg a'u targedu at y meysydd lle roedd eu hangen fwyaf. Er enghraifft, gwelsom fod amrywiaeth o adnoddau cymorth ar gael megis grwpiau rhianta ar-lein a chlybiau ieuencid rhithwir, yn ogystal â chymorth sefydlogrwydd lleoliad er mwyn gwella llesiant emosiynol plant a theuluoedd. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn timau penodol er mwyn darparu cymorth dwys i'r rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth a dybryd i gael cymorth therapiwtig.




Atal

Roedd awdurdodau lleol eraill wedi defnyddio allgymorth, naill ai'n ddigidol neu wyneb yn wyneb, i ddarparu cymorth i oedolion ynysig a oedd yn byw'n annibynnol gan ddarparu pecynnau o weithgareddau a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored megis picnics a theithiau cerdded.

Ymarfer

- Yn Nhorfaen, clywsom gan unigolyn fod mynd am dro gyda rhywun arall wedi'i helpu i fynegi ei deimladau ynglŷn â mater diogelu gan sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed o hyd er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig.
- Yng Ngwynedd, clywsom fod Tîm Cymorth COVID-19 yn bwynt cyswllt i bobl er mwyn cefnogi gwasanaethau statudol a lleihau'r pwysau arnynt.



Atal

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Ni chafodd pob gofalwr ddigon o gefnogaeth

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynnig asesiadau i ofalwr os ymddengys fod angen cymorth ar y gofalwr. Rhoddodd llawer o'r gwasanaethau y mae gofalwyr yn dibynnu arnynt y gorau i weithredu yn ystod y pandemig. Er i ni weld enghreifftiau o ofalwyr yn cael cynnig cymorth yn ystod y pandemig, dywedodd rhai gofalwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael i ofalu amdanynt eu hunain a bod hynny wedi cael effaith ddifrifol arnynt gan arwain at drefniadau gofal yn chwalu.

Yn fwy cadarnhaol, clywsom fod rhai awdurdodau lleol wedi gweithio gyda sefydliadau gofalwyr er mwyn rhoi trefniadau arloesol ar waith i hyrwyddo ymgysylltu.

Ymarfer

- Roedd Rhondda Cynon Taf wedi diweddarau adnoddau gofalwyr, er enghraifft, adnoddau digidol a threfniadau ar gyfer ymgysylltu â'r rhwydwaith gofalwyr ac, o ganlyniad, roedd wedi nodi gofalwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Arweiniodd hyn at gynnydd o tua 30% yn fwy o asesiadau gofalwyr eleni o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.
- Yng Ngwynedd, clywsom gan ofalwyr mewn gwasanaethau oedolion am gefnogaeth ragorol gan yr awdurdod lleol, gyda'r dulliau arloesol o ddosbarthu bocsys crefft wedi'u dilyn gan weithgaredd crefft rhithwir a gyflawnwyd ar y cyd â gofalwyr eraill er mwyn lleihau'r teimlad o fod yn ynysig.

Mae'r dogfennau a welsom a'r ymarferwyr a'r gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn cadarnhau nad oedd asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig na'u cwblhau'n rheolaidd, yn unol â dyletswyddau statudol. Pan oedd asesiadau wedi'u cwblhau, roedd angen gwella prosesau ar gyfer hysbysu gofalwyr am y canlyniadau. Roedd samplau o asesiadau yn dangos bod angen gwella arferion er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau a chymhwysra gofalwyr eu cofnodi'n glir ac y cyfeirir at b'un a all gofalwyr ddarparu gofal ac a ydynt yn fodlon gwneud hynny. Roedd tystiolaeth y byddai ymarferwyr yn cael budd o hyfforddiant pellach ar sut i gadarnhau bod gofalwyr yn gymwys i gael eu hasesu a sut i gynnal asesiadau ar eu cyfer. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau y rhoddir gwybod i ofalwyr yn rheolaidd am eu hawl i gael asesiad a bod pob aelod o staff yn deall hynny ac yn ei hyrwyddo. Bydd asesiadau o ofalwyr, pan gânt eu cymhwyso'n gyson, yn sicrhau y caiff cyfleoedd i gefnogi gofalwyr a hyrwyddo eu llesiant eu nodi'n fwy effeithiol.



Atal

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Nid oedd gan wasanaethau ddigon o adnoddau i ateb y galw

Er bod y graddau yn amrywiol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a rhwng mathau o wasanaethau, nododd y rhan fwyaf o ardaloedd fod y pwysau ar wasanaethau wedi cynyddu wrth i'r pandemig ddatblygu. Yn ystod ein harchwiliadau sicrwydd, gwelsom fod adnoddau mewn gwasanaethau cymorth cartref/gwasanaethau ailalluogi i oedolion, yn ogystal â darpariaeth cymorth cynnar a gwasanaethau lleoli i blant yn lleihau. Yn ddiau, mae'r heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 wedi cynyddu'r pwysau ar allu gwasanaethau, a oedd eisoes o dan bwysau cyn y pandemig, i roi dewisiadau i bobl o ran y math a'r lefel o ofal a chymorth sydd eu hangen i hyrwyddo annibyniaeth a diogelwch.

Gwelsom restrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref. Mynegodd yr ymarferwyr a'r rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw bryderon am hyn. Ar adegau, nid oedd angen gofal a chymorth pobl yn cael eu diwallu ac roedd pwysau cynyddol ar ofalwyr di-dâl. Hefyd, nododd llawer o ofalwyr fod cyfyngiadau ar wasanaethau a'u bod "ar fin chwalu" oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mewn rhai awdurdodau lleol, cafwyd achosion o oedi cyn rhyddhau pobl o'r ysbyty am fod pecynnau gofal a oedd ar gael yn hawdd yn annigonol. Ar nodyn cadarnhaol, gwelsom ymatebion hyblyg a chyflym lle roedd risg uniongyrchol i ddiogelwch unigolyn. Roedd yr arfer 'rhyddhau i asesu' a roddwyd ar waith mewn rhai awdurdodau lleol hefyd wedi hwyluso rhyddhau rhai pobl yn brydlon o'r ysbyty, yn unol â'u dymuniadau.

Mewn llawer o ardaloedd, nodwyd gennym fod pobl hefyd yn aros am wasanaethau, megis gwasanaethau therapi galwedigaethol a gwasanaethau therapiwtig eraill. Er bod y rhan fwyaf o restrau aros yn cael eu rheoli'n dda er mwyn ceisio eu hatal rhag gwaethygu, gwelsom fod llawer o bobl yn colli galluedd corfforol neu feddyliol tra roeddent yn aros i wasanaethau ddechrau. Roedd rhai awdurdodau lleol yn gallu ymateb yn rhagweithiol i'r heriau hyn.

Mae darparu hyb saith diwrnod yn sicrhau ymateb amserol i geisiadau am wybodaeth, cyngor a chymorth

Ym Mlaenau Gwent, gwelsom fod gwersi a ddysgwyd o ddatblygu gwasanaeth hyb saith diwrnod ar gyfer ysbytai aciwt ac ysbytai cymuned, yn ogystal ag atgyfeiriadau yn y gymuned mewn ymateb i'r pandemig, wedi gwella meysydd ymarfer. Er enghraifft, dulliau rheoli achosion a phrosesau gweinyddol, data perfformiad gwell a ffurflenni asesu symlach er mwyn cefnogi ymarfer yn well.

Dysgu

Gan fod y cyfyngiadau bellach yn cael eu codi a bod rhai gwasanaethau a ataliwyd dros dro yn ailagor, mae llawer o awdurdodau lleol yn wynebu galw, na welwyd mo'i debyg o'r blaen, am wasanaethau i bobl y mae angen cymorth arnynt yn eu cartref eu hunain. Mae'r sefyllfa hon wedi'i gwaethygu gan y ffaith bod rhai darparwyr yn 'dychwelyd' pecynnau gofal sydd, yn ei dro, yn effeithio ar wasanaethau eraill. Er enghraifft, mae timau adnoddau cymunedol ac ailalluogi wedi gorfod ad-drefnu eu gwasanaethau er mwyn llenwi'r blwch hwn. Mae awdurdodau lleol yn nodi bod darpariaeth o ran gwasanaethau cymorth cartref a gwasanaethau ailalluogi yn gweithio i'r eithaf. Gwelsom geisiadau am wasanaethau yn cael eu graddio yn ôl risg gyda'r rhai â'r anghenion mwyaf dybryd yn cael eu blaenoriaethu, ar gyfer pobl yn gymuned ac yn yr ysbyty. Mae cynyddu darpariaeth fewnol yn dal i fod yn flaenoriaeth i rai awdurdodau lleol ac roedd atebion mwy arloesol yn cael eu cynllunio gyda chatalyddion cymunedol a microfentrau yn cael eu datblygu. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi mai recriwtio a chadw gweithlu gofal cartref, yn fewnol ac yn y sector annibynnol, yw'r prif reswm dros y broblem hon ac mae hwn yn faes allweddol y byddant yn canolbwyntio arno yn y dyfodol.

Partneriaeth ac Integreiddio

Gwnaethom ofyn:

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu a chymorth corfforaethol da ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen er mwyn darparu gofal cymdeithasol drwy weithio o fewn cyfarwyddiaethau a rhyngddynt mewn awdurdodau lleol.

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Llwyddodd gwahanol sectorau i barhau i gydweithio mewn partneriaeth yn ystod y pandemig

Yn ystod y pandemig, gwelsom fod mwy o ymrwymiad i gydweithio rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid. Lle roedd cydberthnasau gweithredol eisoes yn sefydledig a lle roeddent wedi cael eu hatgyfnerthu a'u gwella drwy arferion gwaith rhithwir roedd hyn wedi gweithio orau. Roedd y defnydd cynyddol o lwyfannau digidol yn golygu bod asiantaethau yn aml yn gallu cyfrannu'n fwy effeithiol mewn cyfarfodydd statudol. Roedd partneriaid yn rhannu gwybodaeth er mwyn nodi a monitro'r bobl yr oedd angen eu diogelu fwyaf.

“Roedd staff yn yr awdurdod lleol yn anhygoel drwy gydol y llynedd, nid wyf erioed wedi gweld trefniadau cydweithio cystal”.

“ Partner ym Mhen-y-bont ar Ogwr

“Mae cydweithio yn gryfder eithriadol”.

“ Darparwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr

“Roedd y cyfarfod cyntaf â'r rheolwyr contractau a oedd yn wych ... Roedd dau unigolyn newydd wedi'u penodi ac roeddent yn wych, yn gefnogol iawn”.

“ Darparwr yn Abertawe

“Cafodd yr aelod cyntaf o'n staff ganlyniad positif i brawf COVID-19 ym mis Tachwedd ac roedd y gefnogaeth yn wych. Roedd staff yr awdurdod lleol yn gefnogol iawn wrth i ni aros am y canlyniad ac, ar ôl i ni gael y canlyniad, roeddent yn wych ac mor brydlon wrth ymateb a'n helpu gyda'r cynlluniau wrth gefn a threfnu i'r nyrs rheoli arolygiadau ymweld. Dywedwyd wrthym, petai angen staff ychwanegol arnom, y dylem gysylltu â'r awdurdod er mwyn iddo ddarparu cymorth. Fel cartref gofal bach nad yw'n rhan o gadwyn rydych wir yn teimlo eich bod ar eich pen eich hun. Ond roedd staff yr awdurdod lleol fel petaent yno i chi bob amser waeth pa mor fach oedd yr ymholiad ac, yn fy marn i, yr hyn a wnaeth y byd o wahaniaeth yn aml oedd eu bod yn gofyn sut roeddech chi, yn amlwg byddent yn casglu'r holl wybodaeth roedd ei hangen ond byddent bob amser yn gofyn i chi sut roeddech yn ymdopi. Yn fy marn i, mae'r pandemig hwn wedi dangos, er mai un cartref gofal ydym, fod gennym dîm ehangach o'n hamgylch sy'n ein cefnogi. Byddwn yn anfon negeseuon e-bost dros y penwythnos gan feddwl y byddent yno yn barod erbyn bore dydd Llun, ond byddwn yn cael ymateb yn syth. Mae'r pandemig yn bendant wedi gwneud y gydberthynas â chomisiynwyr yn gryfach o lawer”

“ Ddarparwr ym Mlaenau Gwent

Partneriaeth ac Integreiddio

Gweithiodd ysgolion a staff addysg yn agos gyda gweithwyr cymdeithasol i nodi a gwneud darpariaeth “hyb” briodol i blant. Gwelsom hefyd fod gwasanaethau a gomisiynwyd gan y sector addysg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau'r plant. Serch hynny, mewn gwasanaethau plant, clywsom fod cydberthnasau â'r farnwriaeth yn dal i fod yn heriol ac, mewn ymateb, roedd rhai awdurdodau lleol wedi datblygu fforymau amlasiantaethol i leihau oedi wedi prosesau cyfreithiol.

Ymarfer

Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Sir Fynwy i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd seiliedig ar leoedd sy'n gysylltiedig â gweithio ar draws gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol gyda'r nod o sicrhau dull gweithredu cwbl integredig sy'n seiliedig ar weithio gyda chymunedau a dros y bobl yn y cymunedau hynny.

Yn ymarferol, gwelsom fforymau amlasiantaethol ar gyfer rheoli risg gydag ymarferwyr yn cydweithio i rannu gwybodaeth.

Ymarfer

Ym Mlaenau Gwent, gwelsom ymarferwyr o sectorau a gwasanaethau gwahanol yn cydweithio'n effeithiol, gyda staff gofal cartref a gafodd eu hadleoli i ysbytai cymuned yn gweithio ochr yn ochr â staff iechyd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel ac amserol.



Yn gyffredinol, gwelsom welliannau cadarnhaol mewn cydberthnasau gwaith rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol ar adegau o argyfwng yn ystod y pandemig. Cafodd rhwystrau blaenorol i integreiddio, gan gynnwys cyllidebau heriol, galw cynyddol a blaenoriaethau croes, eu rhoi o'r neilltu am fod y ddau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion uniongyrchol y boblogaeth. Gwelsom enghreifftiau o staff yn symud rhwng sefydliadau lle roedd angen gwneud hyn.

Ymarfer

- Clywsom fod adrannau yn Sir y Fflint wedi cydweithio i nodi adeilad i'w ddefnyddio fel Hwb Cyfarpar Diogelu Personol Gogledd-ddwyrain Cymru. O fewn tridiau i gaffael yr adeilad, roedd y gwasanaeth yn gwbl weithredol, gan alluogi Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru i sefydlu system gyflenwi effeithlon yn brydlon.
- Yn Nhorfaen, mae'r gwaith i ddatblygu Cysylltwyr Cymunedol sy'n gweithio yn y gymuned i leihau ynysigrwydd cymdeithasol wedi parhau i gynyddu, gyda staff newydd yn cael eu cyflogi gan ddefnyddio cymorth ariannol ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gefnogi'r gwaith o ehangu'r gwasanaeth.

Partneriaeth ac Integreiddio



Mewn rhai awdurdodau lleol, gallai partneriaid fod wedi cydweithio'n well ar lefel strategol i gyflawni dull mwy integredig a chynaliadwy o hyrwyddo annibyniaeth a llesiant. Roedd hyn yn fwyaf amlwg mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbty ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd ffactorau eraill a oedd yn rhwystro gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnwys y ffaith bod rhai aelodau o staff yn gweithio gartref tra bod aelodau o staff mewn asiantaethau eraill yn y swyddfa o hyd, a'r ffaith nad oedd asiantaethau gwahanol yn defnyddio'r un llwyfannau cyfathrebu rhithwir.

Roedd gwaith partneriaeth cydweithredol wedi cefnogi pobl

Gwelsom lawer o enghreifftiau cadarnhaol a chalonogol o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid er mwyn cefnogi llesiant pobl. Un o'r cryfderau mawr ledled Cymru oedd ymdrech gwirfoddolwyr a grwpiau cymorth cymunedol i helpu pobl yn ystod y pandemig.

Roedd partneriaid yn rhannu cyd-ddealltwriaeth o'r angen i flaenoriaethu diogelwch pobl. Yn fwy nag erioed, roedd angen prosesau cyfathrebu effeithiol ac arweiniodd hyn at arferion arloesol megis datblygu polisïau uwchgyfeirio rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal er mwyn targedu cymorth. Yr her bellach yw parhau â'r cydberthnasau sefydledig hyn a'r diwylliant o gydweithio ar ôl y pandemig.

Ymarfer

- Ar Ynys Môn, roedd partneriaeth gwaith hirsefydlog â'r sector gwirfoddol (Medrwn Môn) a grwpiau cymunedol yn golygu y gellid darparu llwyfan ar gyfer adeiladu ymateb y gymuned i'r heriau sy'n deillio o'r pandemig.
- Ledled Ynys Môn a Gwynedd, gwelsom 37 o dimau cymorth ardal yn cael eu sefydlu, gyda mwy na 850 o wirfoddolwyr a oedd yn helpu pobl gyda thasgau megis siopa a chasglu presgripsiynau. Ehangodd y gwaith partneriaeth hwn i gynnwys sefydlu canllawiau ar gyfer cludo meddyginiaeth yn ddiogel ochr yn ochr â chydweithwyr o'r bwrdd iechyd lleol.
- Roedd Gwynedd yn defnyddio gwirfoddolwyr i helpu pobl gyda thasgau megis mynd â chŵn am dro a chasglu bwyd.
- Yn Rhondda Cynon Taf, cafodd 120 o aelodau o staff eu hadleoli er mwyn iddynt gysylltu â phobl ar y rhestr warchod i'w holi am eu llesiant a gweld a oedd angen cymorth arnynt.
- Agorodd Pen-y-bont ar Ogwr encilfa llesiant ac iechyd meddwl ym mis Rhagfyr 2020; caiff y gwasanaeth ei ddarparu fel rhan o drefniant cydweithredol rhwng yr awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru a darparwyr gwasanaeth eraill yn y trydydd sector.
- Mae Cyngor Sir Powys, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, yn parhau i ddatblygu darpariaeth gofal cartref mewn ardaloedd gwledig gyda nifer cynyddol o microfentrau yn cael eu datblygu. Mae'r gwasanaeth hwn yn ei gwneud yn bosibl i bobl gael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain gan leihau'r angen iddynt fynd i ofal preswyl.
- Aeth hyb diogelu Caerffili yn fyw ym mis Ionawr 2021, a gwelsom fod hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar waith casglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg. Mae cynlluniau bellach ar waith i wella ymateb yr hyb diogelu i blant sydd ar goll a'r rhai sydd mewn perygl o gam-fanteisio.

Partneriaeth ac Integreiddio

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Mae awdurdodau lleol yn gomisiynwyr cefnogol

Clywsom fod mwy o gyfathrebu, ymgysylltu a chymorth rhwng comisiynwyr awdurdodau lleol a holl ddarparwyr gwasanaethau. Yn ddiau, roedd ysbryd o gydweithio er mwyn sicrhau bod cymorth yn parhau i gael ei ddarparu o fewn cyfyngiadau COVID-19. Roedd rhannu gwybodaeth gywir yn hanfodol yn ystod y pandemig a gwelsom ffyrdd arloesol roedd hyn yn cael ei wneud rhwng darparwyr a'r awdurdod lleol.

Ymarfer

Clywsom am borth gwybodaeth dwyffordd ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle y gall darparwyr gael gwybodaeth sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, cymorth gan gymheiriaid, enghreifftiau o arferion gorau ac unrhyw ddysgu drwy esiampl.

Ym mhob awdurdod lleol y gwnaethom ymweld ag ef, clywsom dro ar ôl tro gan ddarparwyr am y cymorth gwerthfawr roeddent wedi'i gael gan awdurdodau lleol.

“Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn wych o ran hwyluso'r hyn sydd ei angen arnom...mae bob amser rywun y gallwn droi ato”.

“ Darparwr o Fro Morgannwg

Newidiodd y gydberthynas rhwng comisiynwyr a darparwyr i gydberthynas waith fwy cytbwys a chefnogol. Clywsom straeon cadarnhaol am y cymorth a ddarparwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector a pharodrwydd awdurdodau lleol i arbrofi ac arloesi gyda nhw er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth.

“Diwylliant o gydweithio a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd”.

“ Darparwr o Ben-y-bont ar Ogwr

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Nid yw Llwyfannau Digidol yn cefnogi ymarfer

Cyfeiriodd pob awdurdod lleol at anawsterau wrth ddefnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Clywsom dro ar ôl tro am broblemau rheolaidd yn ymwneud â chael gafael ar wybodaeth a'i lanlwytho. Mae'r problemau hyn yn arbennig o ddifrifol os ychwanegir awdurdod lleol newydd neu os bydd y system yn cael ei diweddarau. Soniodd y staff wrthym am achosion lle roeddent

wedi colli gwybodaeth neu wedi methu â defnyddio'r system, a'u bod yn aml wedi gorfod lawrlwytho gwaith y tu allan i oriau gwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth pobl yn cael ei chofnodi a'i bod ar gael.

Dywedodd y staff fod y problemau hyn yn tanseilio morâl ac yn peri pryder am nad oedd gwybodaeth am bobl bob amser yn gyfredol. Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r problemau hyn ac yn cymryd camau priodol yn barhaus er mwyn ceisio eu datrys.

Llesiant


Gwnaethom ofyn:

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

- Roedd pobl yn cael eu cefnogi, roedd eu llesiant yn cael ei hyrwyddo ac roedd eu hannibyniaeth yn cael ei chynnal

Gwelsom lawer o enghreifftiau da o awdurdodau lleol yn cefnogi pobl er mwyn cynnal a hyrwyddo eu llesiant. Gwelsom fod pobl yn aml yn chwarae rhan weithredol yn y broses o gynllunio eu pecynnau gofal a chymorth eu hunain. Dangosodd dogfennau a welsom, a thrafodaethau a gynhaliwyd â phobl, fod ymarferwyr wedi canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig wrth gysylltu â phobl. Roedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i rwystrau roedd pobl yn eu hwynebu wedi'u cydbwyso â'r cryfderau a'r cymorth a oedd eisoes ar gael iddynt. Roedd sgysiau yn canolbwyntio ar y canlyniadau roedd pobl am eu cyflawni ac roeddent yn chwarae rhan weithredol mewn trafodaethau.



Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ofal a chymorth yn cael eu teilwra er mwyn cyflawni canlyniadau pobl a nodwyd, gan ddisodli gwaith cynllunio seiliedig ar anghenion traddodiadol a dileu'r angen i ddarparu gwasanaethau cyffredinol wedyn.

Ymarfer

- Dywedodd unigolyn o Sir Fynwy wrthym ei fod wedi cael budd o ofal a chefnogaeth ar ffurf cymorth ymarferol drwy gael cymhorthion ac addasiadau, cymorth gyda gofal personol a chymorth ailalluogi preswyl tra roedd gwaith yn mynd rhagddo yn ei eiddo. Yn gadarnhaol, roedd yn teimlo ei fod yn gallu cyfrannu at benderfyniadau a wnaed, bod ei lais yn cael ei glywed a'i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.
- Yng Ngheredigion, roedd asesiadau ar gyfer cyfarpar lefel isel wedi parhau dros Zoom a helpodd i sicrhau diogelwch ac annibyniaeth pobl.

Ymarfer

Ymatebodd Sir y Fflint yn gadarnhaol i berson a ofynnodd am gynnydd yn ei phresenoldeb er mwyn iddi fanteisio ar ei chyfle i wneud "gwaith dydd" ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Gwelsom hefyd enghreifftiau o gynlluniau wrth gefn da, blaenoriaethu ac arloesi o ran darparu gwasanaethau, gan gynnwys prosiectau a oedd yn mynd i'r afael â materion a godwyd mewn asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal. Mewn ychydig o enghreifftiau, nid oedd cynlluniau gofal yn canolbwyntio digon ar yr hyn roedd ei angen er mwyn i bobl gyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni; roedd hyn yn golygu y gallai gwaith cynllunio gofal a chymorth gamgyfleu'r hyn sy'n bwysig i bobl. Gellid gwella rhai cynlluniau gofal drwy sicrhau'n fwy effeithiol fod cryfderau pobl yn cael eu hadlewyrchu'n gyson mewn ffordd ystyrlon a'u bod yn fwy eglur a manwl.

Llesiant

Ymarfer

Ym Mlaenau Gwent, trefnwyd contract 7 diwrnod yr wythnos gyda'r nod o reoli risg er mwyn cadw plant gartref yn llwyddiannus a chefnogi oedolion i aros yn y gymuned. Roedd gwasanaethau yn cydweithio'n dda â gweithwyr cymorth Dechrau'n Deg a gafodd eu hadleoli er mwyn helpu gyda dyletswyddau cartrefi gofal a chynnal gwasanaethau i'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt yn y gymuned.

Gellir defnyddio Cyllid Gofal Integredig yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau cymorth arloesol a phwrpasol

Yng Ngwynedd, sefydlwyd y tîm Emrallt arbenigol gan ddefnyddio Cyllid Gofal Integredig er mwyn atal achosion o gam-drin neu leihau eu heffaith. Roedd y ffocws ar asesu ac ymyrryd er mwyn cefnogi dioddefwyr a chyflawnwyr ymddygiad rhywiol niweidiol (SHB). Nod y tîm yw lleihau nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau statudol yn dilyn achos o gam-drin. Gwneir hyn drwy sicrhau bod gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau statudol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o ymddygiad rhywiol sy'n achosi problemau ac ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn darparu ymyriadau amserol a phriodol. Caiff y prosiect hwn ei werthuso gyda mewnbwn gan Brifysgol Bangor er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Dysgu

32

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Parhawyd i gyflawni dyletswyddau diogelu statudol yn ystod y pandemig

Gwelsom dystiolaeth dda o arferion diogelu mewn gwasanaethau plant ac oedolion ledled Cymru yn unol â'r gofynion statudol. Roedd ymarferwyr priodol a chynrychiolwyr asiantaethau partner yn bresennol mewn cyfarfodydd ac roedd y defnydd cynyddol o lwyfannau digidol yn golygu bod asiantaethau'n gallu cyfrannu'n fwy aml at drafodaethau ynghylch strategaethau diogelu ac adolygiadau o strategaethau o'r fath. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae tystiolaeth o adolygiadau o achosion diogelu fod risgiau'n cael eu dadansoddi'n dda, bod penderfyniadau allweddol yn cael eu cofnodi a bod trefniadau goruchwylio gan reolwyr yn gadarn.

Gall cyfarfodydd pod mewn gwasanaethau plant hyrwyddo'n glir ddull holistaidd a seiliedig ar gryfderau o weithio gyda theuluoedd

Yn Sir Gaerfyrddin, roedd cofnodion yn disgrifio gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn glir. Roedd y cynlluniau'n amlinellu nodau cyflawnadwy clir i ddiogelu'r plant a gwella eu llesiant drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Gwnaethom fwrw golwg dros gynllun a oedd yn cynnwys mesurau risg llym i sicrhau diogelwch plentyn dros gyfnod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau dirybudd dyddiol a oedd yn canolbwyntio ar risg, a hefyd yn dangos tystiolaeth o ansawdd perthynas waith gadarnhaol rhwng y teulu a'r ymarferydd.

Dysgu

Llesiant

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen atgyfnerthu trefniadau goruchwyllo gan reolwyr a phrosesau sicrhau ansawdd mewn perthynas ag arferion diogelu mewn llawer o ardaloedd. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau arferion cyson mewn perthynas ag amseroldeb ymholiadau ac ymchwiliadau a gwella gwaith dadansoddi risg a phrosesau gwneud penderfyniadau, a sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed yn fwy effeithiol ac y cyfeirir yn gyson at eu barn. Mewn nifer bach o awdurdodau lleol, gwelsom achosion o oedi cyn rhoi gweithdrefnau diogelu ar waith. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd plant a ddylai fod wedi cael eu gweld yn ystod ymchwiliad wedi cael eu gweld ac roedd hynny wedi cyfyngu ar eu cyfle i leisio eu barn.

Ansawdd asesiadau o alluedd meddyliol

O'r sampl fach iawn o asesiadau o alluedd meddyliol a adolygwyd gennym, gwelsom fod systemau a phrosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod galluedd meddyliol y bobl yn cael ei asesu yn ôl yr angen drwy gydol y pandemig. Mae ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i alluedd meddyliol pobl i gymryd rhan mewn ymholiadau diogelu, eu hasesiadau, a'r gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Gwelsom ymarferwyr yn parchu hawl unigolion i wneud yr hyn y gall eraill eu hystyried o bosibl yn benderfyniadau annoeth. Gwelsom hefyd rai enghreifftiau da o asesiadau o alluedd meddyliol a'r defnydd o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, yn ôl yr angen.

Ymarfer

- Ar Ynys Môn, gwelsom arbenigedd cynyddol ym maes galluedd meddyliol. Roedd y gwaith a welwyd o safon uchel iawn ac yn rhoi hyder y gellir diogelu oedolion nad oes ganddynt alluedd meddyliol rhag cyfyngiad diangen ar eu rhyddid.
- Ym Mro Morgannwg, roedd oedolyn â nam gwybyddol wedi cael cymorth sylweddol gan weithiwr cymdeithasol er mwyn hyrwyddo hawl yr unigolyn i wneud eu penderfyniadau ei hun. Roedd yn amlwg bod y gweithiwr cymdeithasol wedi defnyddio ei wybodaeth broffesiynol gan ganolbwyntio'n glir ar sicrhau hawliau'r unigolyn.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhai cyfleoedd wedi'u colli i gynnwys lleisiau pobl yn effeithiol. Yn achos nifer o'r achosion a adolygwyd, byddai wedi bod yn fuddiol petai'r rhesymeg wedi cael ei chofnodi'n fwy manwl pan ystyriwyd nad oedd gan bobl alluedd meddyliol.

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Mae arferion cadw cofnodion gwael yn tanseilio ymarfer

Cydnabyddir mai prif ffocws awdurdodau lleol yn ystod y pandemig oedd darparu cymorth. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o arferion cadw cofnodion gwael cyn i'r heriau allweddol a achoswyd gan bwysau staffio a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ddechrau ymddangos. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, nid oedd y cofnodion achos a adolygwyd yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol y staff. Yn benodol, nid oedd rhywfaint o'r gwaith uniongyrchol dychmygol a wnaed gyda phobl wedi'i gofnodi ac roedd ei ansawdd yn amrywio. Er bod y rhan fwyaf o gofnodion yn nodi barn pobl a'u canlyniadau personol a nodwyd yn ddigonol, roedd eraill yn canolbwyntio gormod ar angen yn hytrach na chryfderau. Nodwyd gennym fod penderfyniadau yn aml yn cael eu cofnodi heb esboniad na rhesymeg glir. Nid oedd llawer o'r asesiadau a welwyd gennym yn cynnwys gwaith dadansoddi ac nid oeddent wedi cofnodi'r effaith ar brofiadau pobl yn ddigonol. Mae'r ffaith nad oes gwybodaeth wedi'i chofnodi gyfredol ar gael er mwyn gwneud penderfyniadau amserol, priodol a chymesur, yn peri risgiau a allai effeithio ar ddiogelwch a llesiant pobl.


Llesiant

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

● Ansawdd ac amseroldeb asesiadau ac adolygiadau

Nodwyd gennym y gallai ansawdd asemiadau a chynlluniau gofal a chymorth mewn gwasanaethau plant ac oedolion gael ei wella mewn llawer o ardaloedd. Gellid gwella asemiadau a chynlluniau drwy nodi'n gliriach pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau pobl eu cyflawni ac y gellir eu mesur.

Mewn rhai gwasanaethau, bu oedi wrth gwblhau rhai asemiadau ac adolygiadau a oedd, yn ei dro, wedi arwain at oedi cyn darparu gofal a chymorth a/neu wedi peryglu'r ddarpariaeth honno. Cawsom wybod bod sawl rheswm dros hyn gan gynnwys galw cynyddol ac absenoldeb/swyddi gwag mewn rhai timau. Roedd tystiolaeth bod rheolwyr mewn rhai awdurdodau lleol yn lliniaru'r problemau hyn drwy fonitro pobl a oedd yn aros am asemiad/adolygiad yn rheolaidd, asesu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â nhw a'u blaenoriaethu. Yn yr un modd, mewn awdurdodau lleol eraill, roedd ymarferwyr yn cadw mewn cysylltiad â phobl ac yn diwygio eu dull adolygu yn ôl yr angen. Rhaid gwneud gwelliannau mewn perthynas ag amseroldeb adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth er mwyn bod yn hyderus bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn modd amserol.



CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Plant sy'n derbyn gofal



PLANT SY’N DERBYN GOFAL

Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Pobl

LLAIS A RHEOLAETH

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Caiff lleisiau plant eu clywed

I blant a oedd mewn gofal, gwelsom fod yr holl ymweliadau ac adolygiadau statudol yn cael eu cynnal mewn modd amserol, gan sicrhau bod plant yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau ac yn cyfrannu atynt ac roedd rhai awdurdodau lleol yn mynd ati i annog plant a phobl ifanc i gadeirio eu hadolygiadau eu hunain gyda'r cymorth angenrheidiol os oedd ei angen.

Nodwyd gennym fod llawer o blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau yn teimlo ei bod yn haws iddynt fynychu adolygiadau o ofal a chyfarfodydd i drafod gofal a oedd yn cael eu cynnal yn rhithwir a chyfrannu atynt. Gwnaethant ddweud wrthym fod diogelwch eu cartrefi eu hunain yn llai bygythiol na'r cyfarfodydd ffurfiol a oedd yn cael eu cynnal yn yr ysgol neu mewn swyddfa. Gwelsom ei bod yn fwy cymhleth i blant iau ond gyda chymorth rhieni a gofalwyr roedd rhai wedi dod i arfer â'r ffordd hon o ymgysylltu. Roedd darparu cyfarpar technegol hefyd wedi helpu i ddiwallu anghenion addysgol plant. Yn yr un modd, mae plant wedi cael budd o allu mynegi eu barn a'u teimladau drwy dechnoleg mewn modd amserol.

Mae cymorth ymarferol ar ffurf cyfarpar technolegol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol wedi bod o fudd mawr i bobl

Dysgu

Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi datbygu App 'Mind of My Own' sy'n adnodd cyfranogi ar-lein i ymgysylltu â phlant a chlywed eu barn. Mae hefyd yn galluogi plant i rannu gwybodaeth ar gyfer eu hadolygiadau statudol a chysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol os bydd angen cymorth arnynt.



Pobl

LLAIS A RHEOLAETH

Yn ystod cyfyngiadau COVID-19, soniodd pobl ifanc a oedd wedi'u lleoli gyda gofawyr maeth a phobl ifanc a oedd wedi gadael gofal am yr anawsterau a oedd yn gysylltiedig ag ymweld â rhieni a pherthnasau yn y cnawd. Roedd llawer yn gallu cysylltu â'r teulu drwy lwyfannau digidol ond nid oedd yr un peth â bod gyda'u teulu wyneb yn wyneb, yn eu barn nhw.

Roedd rhieni hefyd yn cysylltu â'u plant drwy lwyfannau digidol. Dywedodd rheolwyr wrthym mai un o'r canlyniadau cadarnhaol oedd bod rhai rhieni yn ei chael hi'n haws ymgysylltu drwy lwyfannau digidol ar gyfer cynadleddau achosion ac adolygiadau o achosion a bod hynny'n llai bygythiol iddynt. Darparwyd y cyfarpar angenrheidiol gan rai awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cyswllt yn cael ei gynnal. Roedd rhieni a gofawyr maeth yn helpu plant iau i gyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau digidol.

Roedd technoleg yn adnodd effeithiol i helpu rhieni i roi gwybod i'w plant am y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhyngwrwyd, sy'n bwysig iawn o ystyried y defnydd cynyddol y mae plant yn ei wneud ohono yn aml ar eu pen eu hunain

Lluniodd Conwy dudalen ar ddiogelwch ar y rhyngwrwyd sy'n canolbwyntio ar roi gwybod i rieni am y risgiau i blant sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhyngwrwyd a'u helpu i gadw eu plant yn ddiogel. Mae hwn yn ddarn pwysig o waith o ystyried y pryder cynyddol am hyn yn ystod y pandemig.

Dysgu

Sicrhaodd Swyddogion Adolygu Trefniadau Diogelu Annibynnol fod cyswllt da rhyngddynt â phlant drwy gydol y pandemig

Mae Swyddogion Adolygu Trefniadau Diogelu Annibynnol (ISRO) yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau y caiff targedau statudol eu cyflawni, na chaiff achosion eu gadael heb eu datrys a bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Gwelsom bolisiau a phrosesau uwchgyfeirio ar waith er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu hatgyfeirio at yr uwch-reolwyr uchaf er mwyn datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl. Yn gadarnhaol, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid oedd angen i Swyddogion Adolygu Trefniadau Diogelu Annibynnol ddechrau'r weithdrefn uwchgyfeirio ffurfiol. Roedd cyfathrebu da a chydberthnasau agored a gonest â thimau yn golygu eu bod yn gallu codi pryderon ac ymdrin â nhw'n brydlon heb orfod uwchgyfeirio materion.

Er i ni weld arferion anghyson ledled Cymru mewn perthynas â'r ffordd roedd Swyddogion Adolygu Trefniadau Diogelu Annibynnol yn cysylltu â phlant sy'n derbyn gofal ac yn ceisio eu barn a pha mor aml roeddent yn gwneud hynny, gwelsom hefyd dystiolaeth o arferion da. Mewn rhai awdurdodau lleol, gwelsom dystiolaeth o Swyddogion Adolygu Trefniadau Diogelu Annibynnol yn cysylltu â phlant cyn adolygiadau ac mae'n gadarnhaol, mewn rhai ardaloedd, fod adolygiadau canol cyfnod i asesu cynnydd mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth plant yn cael eu cynnal.

Mae cynnwys plant a phobl ifanc yn effeithiol mewn adolygiadau yn helpu i gynyddu eu cyfranogiad

Yn debyg i awdurdodau lleol eraill yn Sir y Fflint, Ceredigion a Chonwy, roedd cofnodion o adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hysgrifennu'n uniongyrchol i'r plentyn mewn ffyrdd creadigol iawn, gan gydnabod dymuniadau'r plentyn, ac esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml.

Dysgu

Pobl

LLAIS A RHEOLAETH

Cymorth gwerthfawr i'r rhai sydd wedi gadael gofal

Roedd unigolion a oedd wedi gadael gofal yn uchel eu canmoliaeth o'r effaith gadarnhaol roedd cynorthwyr personol wedi'i chael ar eu bywydau a'r ffordd roeddent wedi cael eu cefnogi i feithrin sgiliau newydd i fyw'n annibynnol a chael gwaith ac addysg.

Roedd yn galonogol siarad ag unigolion a oedd wedi gadael gofal a oedd yn dilyn gyrfaedd ym meysydd nyrsio a bydwreigiaeth, gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a parafeddygaeth, er eu bod wedi wynebu llawer o flynyddoedd anodd yn ystod eu hieuenctid, ac roedd llawer ohonynt yn gwneud cais i fynd i'r brifysgol. Fodd bynnag, dywedodd rhai unigolion a oedd wedi gadael gofal wrthym fod dod o hyd i lety priodol mewn lleoliadau diogel yn anodd weithiau ac nad oedd fawr o ddewis o ran lety mewn llawer o ardaloedd awdurdod lleol. Nid oedd pob awdurdod lleol yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r rhai a oedd wedi gadael gofal o ran eu rhoi ar y gofrestr dai. Dywedodd llawer o unigolion a oedd wedi gadael gofal eu bod yn teimlo'n ynysig yn ystod pandemig COVID-19 am eu bod yn byw ar eu pen eu hunain ac nad oeddent mewn cysylltiad â theulu na ffrindiau. Arweiniodd hyn at deimladau o orbryder ac, yn achos rhai, roedd problemau iechyd meddwl wedi ailymddangos.

“Mae fy nghynorthwyydd personol wedi bod yn wych. Mae bob amser yno ac mae wedi fy helpu i gael fy fflat a mynd i'r brifysgol”.


“ Unigolyn a oedd wedi gadael gofal

“Cefais tua 5 Gweithiwr Cymdeithasol gwahanol. Byddwn i'n setlo ac yn dechrau ymddiried ynddynt – ac wedyn byddent yn gadael. Roedd hynny'n anodd”.

“ Unigolyn a oedd wedi gadael gofal

CANFYDDIAD ALLWEDDOL**● Gellid atgyfnerthu darpariaeth eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal**

Yn y rhan fwyaf o achosion a adolygwyd gennym, cynigiwyd gwasanaeth eirioli i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r ddarpariaeth er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli am fod llawer o blant nad ydynt yn llawn sylweddoli arwyddocâd y cymorth sy'n cael ei gynnig iddynt. Anaml y gwelsom achosion o wasanaeth eirioli yn cael ei gynnig yr eildro wrth i blant barhau ar eu taith mewn gofal ac roedd hynny yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant ailystyried wrth iddynt aeddfedu a/neu gael mwy o brofiad neu feithrin mwy o ddealltwriaeth o'u statws fel plentyn sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd, ni welsom fawr ddim tystiolaeth o rieni, y gall fod angen cymorth a gwybodaeth ychwanegol ar lawer ohonynt, yn cael cynnig cymorth eirioli. Pan fydd gwasanaeth eirioli yn cael ei gynnig, dylai fod proses gofnodi fwy cadarn ar waith i ddangos bod y plentyn/rhieni wedi'i gael.



Atal

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

- **Mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth uchel i awdurdodau lleol ledled Cymru**

Mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ar ôl ei gwneud yn bosibl iddynt ddychwelyd adref i'w rhieni, neu ddiddymu gorchmynion gofal, yn flaenoriaeth uchel i bob gwasanaeth cymdeithasol yng Nghymru. Mae nifer o systemau ffurfiol yn bodoli, er enghraifft paneli cymorth cynnar, paneli lleoliadau cymhleth a grwpiau monitro parhad, i fonitro pob plentyn sy'n derbyn gofal a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith er mwyn sicrhau y cymerir camau i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant.



Gwelwyd y canlyniadau gorau pan oedd gan blant lleoliadau sefydlog a oedd yn diwallu eu hanghenion ac yn helpu i gyflawni eu nodau hirdymor. Mae Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig yn hanfodol i gefnogi lleoliadau fel dewis amgen yn lle dychwelyd plant i'r system ofal. Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi datblygu timau a swyddi gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig wedi llwyddo i gynyddu nifer yr achosion lle mae gorchmynion gofal wedi cael eu dirymu a'u disodli gan orchmynion gwarcheidiaeth arbennig gan sicrhau gwell canlyniadau i'r plentyn.

Mae awdurdodau lleol wedi mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo dull cadarnhaol o gadw plant a phobl ifanc yn agos i'w cartref lle y bo'n bosibl. Weithiau, mae hyn wedi lleihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal drwy sicrhau eu bod yn aros gyda'u rhieni neu'n cael eu lleoli gyda rhieni neu aelodau eraill o'r teulu. Yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd gennym, gwelsom fod risg yn cael ei rheoli'n dda a bod rhieni yn cael eu cefnogi i ddarparu amgylchedd sefydlog. Mae rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi arian mewn rolau 'lleoli gyda rhieni' arbenigol yn y sector gwaith cymdeithasol ac maent yn adolygu pob achos er mwyn sicrhau y caiff plant eu dychwelyd yn ddiogel i'w rhieni. Mae awdurdodau lleol eraill wedi datblygu timau Cryfder mewn Teuluoedd a chymorth dwys i deuluoedd ac mae rhai plant wedi dychwelyd i fyw gyda'u rhieni gyda chymorth y timau hyn. Mae therapi teuluol hefyd yn cael ei gynnig yn ôl yr angen.

Mae cymorth arloesol i ofalwyr maeth yn darparu cymorth amserol a phriodol gan leihau'r risg y gallai lleoliadau chwalu

Dysgu

Mae Sir y Fflint wedi datblygu model maethu Mockingbird lle mae un cartref maeth yn gweithredu fel hyb i ofalwyr maeth eraill gan gynnig seibiannau cysgu dros nos wedi'u cynllunio ar frys yn ogystal â chyngor, hyfforddiant a chymorth. Mae gofalwyr maeth y cartref hyb yn darparu cymorth i rhwng chwech a 10 gofalwr maeth arall yn eu cymuned. Nod y rhaglen yw sicrhau bod lleoliad yn fwy sefydlog i'r plentyn a'r teulu maeth a'u helpu i feithrin cydberthnasau cryfach.

Atal

Dysgu

Mae timau amlddisgyblaethol sy'n darparu cymorth dwys i blant a theuluoedd yn lleihau'r risg y bydd y plant yn dod o dan ofal yr awdurdod lleol

Mewn llawer o awdurdodau lleol megis Merthyr Tudful, Ynys Môn, Conwy, Blaenau Gwent, Casnewydd a Sir Fynwy, clywsom am Dimau Therapi Aml-Systemig, Timau Cryfhau Teuluoedd, Timau Teuluoedd Cefnogol, Timau Teuluoedd Gwydn, Cyflawni Newid gyda'n Gilydd a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a gwasanaethau Cynadleddau Grŵp Teulu ac Ymateb Cyflym, y mae pob un ohonynt yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sydd o wahanol gefndiroedd ac â gwahanol gymwysterau, sy'n gweithio'n hyblyg, yn aml y tu allan i oriau, er mwyn i blant sy'n wynebu risg o ymuno â'r system ofal allu aros gyda'u teuluoedd heb orfod troi at wasanaethau statudol.

Lle mae awdurdodau lleol wedi datblygu gwasanaethau i fabanod a phlant bach er mwyn cefnogi rhieni ifanc, mae hyn yn fuddiol ac yn talu ar ei ganfed. Mae'r ffocws ar ymyrryd yn gynnar, gan weithio gyda rhieni ar gam cynnar er mwyn sicrhau eu bod yn deall anghenion y baban a'u cyfrifoldebau a datblygu strategaethau ymdopi. Y nod y cadw'r teulu gyda'i gilydd er mwyn atal babanod rhag ymuno â'r system ofal.

Ymarfer

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, maent wedi datblygu'r gwasanaeth Meddwl am y Baban er mwyn helpu rhieni i ofalu am eu babanod a'u plant bach mewn ffordd gadarnhaol, gan eu hatal rhag ymuno â'r system ofal.

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Mae gwasanaethau ataliol yn datblygu

Gwelsom dystiolaeth o amrywiaeth o wasanaethau ataliol a oedd wedi cael eu datblygu mewn llawer o awdurdodau lleol gan ddefnyddio arian grant Llywodraeth Cymru. Mewn rhai ardaloedd, mae timau 'ar ffiniau gofal' yn cynnig cymorth wedi'i dargedu a chymorth amserol i ofalwyr maeth a theuluoedd er mwyn atal lleoliadau rhag chwalu.

Gwnaethom gydnabod y cymhlethdod cynyddol a'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt.

Mae angen dulliau gweithredu arloesol er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid yn gyflym

Yn ystod y pandemig, ailfodelwyd darpariaeth ieuencid lefel un Abertawe o gymorth a ddarperir dan do mewn canolfannau i fodel allgymorth a ddarperir ar y stryd er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu cefnogol yn parhau â phobl ifanc yn eu lleoedd eu hunain.

Dadleuodd Swyddogion Datblygu Hybiau Ieuencid (YHDO) o blaid anghenion pobl ifanc ar lan y môr, am eu bod yn poeni bod y strategaeth o wasgaru pobl ifanc pan oeddent wedi meddwi yn peri risg am y byddent yn symud tuag at ganol y dref lle roeddent yn llai gweladwy ac yn wynebu mwy o risg. Cafodd y safbwyntiau hyn eu bwydo i mewn i gyfarfod amlasiantaethol strategol lle y datblygwyd cynllun a oedd yn ystyried barn pobl ifanc eu hunain ac yn sicrhau bod ganddynt le diogel i dreulio amser. Yn ddiweddarach, roedd y Swyddogion Datblygu Hybiau Ieuencid yn gallu gwneud gwaith lleihau niwed gyda grwpiau o gyfoedion ar lan y môr, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt lwybrau diogel i gyrraedd adref, gan leihau'r risg o niwed.

Dysgu

Atal

Gwelsom wasanaethau arloesol yn cael eu darparu ac mae llawer o dimau bellach yn cynnwys rolau seicolegol a therapi mewnlol er mwyn cefnogi'r plant hynny â'r ymddygiadau mwyaf cymhleth gyda llawer o awdurdodau lleol yn symud yn gyflymach i ddatblygu timau ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

Dywedodd gofawyr maeth wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed gan awdurdodau lleol i sicrhau bod cyfathrebu da a chymorth lleoliadau yn ystod y pandemig. Gwelsom fod gwaith cynllunio wedi'i arwain gan y teulu a mynediad gofawyr maeth at eu gwasanaeth cymorth seicolegol eu hunain yn cael eu hyrwyddo mewn llawer o ardaloedd. Roedd hyn yn helpu gofawyr maeth i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc roeddent yn gofalu amdanynt yn fwy effeithiol. Bu'n rhaid i lawer o ofawyr maeth ddysgu sgiliau addysgu gartref newydd. Cafodd rhai liniaduron a llechi ychwanegol. Roeddent hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a gwnaethant groesawu'r pecynnau celf/crefft, y blodau, y siocledi a'r anrhegion Nadolig a gawsant er mwyn cydnabod y gwaith da roeddent yn ei wneud.

Ymarfer

Ym Mro Morgannwg, mae Enfys, sef tîm o seicolegwyr clinigol, gweithwyr iechyd meddwl graddedig a therapyddion galwedigaethol yn helpu ymarferwyr a gofawyr maeth i ddeall y plentyn ac ymateb iddo mewn ffordd therapiwtig.

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Mae prinder lleoliadau


Mae angen cymorth ar blant yn llawer iau oherwydd effaith emosiynol ac ymddygiadol profiadau o gamdriniaeth. Er enghraifft, gallant fod yn ymwneud â gangiau neu linellau cyffuriau, gall fod ganddynt broblemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau neu gallant fod ar ffiniau cam-fanteisio ar blant. Felly, mae'n hanfodol bod y teuluoedd maeth cywir yn cael eu canfod, eu hyfforddi a'u cefnogi i roi cymorth cadarn i'r plant hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a heriol. Er nad yw cymhlethdod yn newydd, mae llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd lleoli plant sydd â'r anghenion cymhleth iawn hyn. Yn achos y bobl ifanc hynny y mae angen cymorth dwys arnynt, gwelsom fod awdurdodau lleol yn aml yn methu â nodi opsiynau addas ar gyfer lleoli plant gyda gofawyr maeth medrus, hyfforddedig a phrofiadol. Mae hyn yn destun pryder mawr ac yn flaenoriaeth i uwch-dimau rheoli, rhieni corfforaethol a deiliaid portffolio, yn ogystal ag asiantaethau partner.

Mae'n anodd iawn i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth gofal preswyl briodol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â'r anghenion emosiynol ac ymddygiadol mwyaf cymhleth. Mae angen y math hwn o wasanaeth ar gyfer gofal seibiant, asesu a thriniaeth. Gallai fod yn fwy cost-effeithiol a chynaliadwy darparu'r math hwn o wasanaeth petai hynny'n cael ei wneud yn rhanbarthol. Er bod nifer bach o awdurdodau lleol yn datblygu cyfleusterau cartref i grwpiau bach, sy'n adlewyrchu bywyd teuluol, mae llawer o blant yn cael eu hanfon allan o Gymru i gael y cyfleusterau hyn a mathau therapiwtig eraill o gymorth.

Lleisiodd sawl awdurdod lleol bryderon difrifol ynghylch y ffaith nad oes digon o lety diogel ar gael yng Nghymru a Lloegr. Mae'r prinder llety diogel hwn wedi arwain at leoli'r bobl ifanc mwyaf cymhleth ac agored i niwed mewn llety amhriodol nad yw'n diwallu eu hanghenion therapiwtig a/neu eu hanghenion gofal yn briodol. Mae llawer o bobl ifanc wedi'u rhoi mewn lleoliadau heb eu cofrestru oherwydd prinder lleoliadau cofrestredig a/neu am nad oes lleoliadau cofrestredig ar gael. Mae hyn weithiau yn golygu bod llai o gyfle i bobl ifanc gyflawni'r canlyniadau gorau.

“Mewn un flwyddyn cefais fy lleoli gydag 8 gofalwr maeth - roedd fy holl eiddo mewn bag bin du ac, felly, dysgais yn gynnar nad oedd yn werth ei ddadbacio”.

“ Unigolyn a oedd wedi gadael gofal



Partneriaeth ac Integreiddio

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Bu partneriaid yn cydweithio drwy gydol y pandemig

Yn ystod y flwyddyn hon, sydd wedi'i dominyddu gan bandemig COVID-19, mae partneriaethau yn gyffredinol wedi cryfhau ac maent bellach yn cyd-fynd yn agosach â'i gilydd. Bu camaraderie rhwng gwahanol rannau o'r awdurdod lleol a gwasanaethau cymdeithasol megis, er enghraifft, helpu cydweithwyr yn y sector addysg i sefydlu ysgolion hyb er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc. Gwelwyd dull gweithredu corfforaethol strategol ar draws portffolios a rhyngddynt ym mhob awdurdod lleol. Lle roedd gwasanaethau wedi'u comisiynu gan y trydydd sector parhawyd i ddarparu'r rhain a chafodd prosesau cyfathrebu a gwaith partneriaeth eu gwella.

Mae'r rolau penodol sy'n bodoli i ddarparu cymorth i blant mewn gofal megis Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal ac arweinwyr addysg, i gyd wedi cydweithio'n dda ac wedi bod yn bresennol mewn adolygiadau a chynadleddau achos priodol ac maent yn ymrwymedig iawn i gefnogi'r plant y maent yn gweithio gyda nhw.

“Roedd y staff yr awdurdod lleol yn wych drwy gydol y flwyddyn, dw i erioed wedi gweld cydweithio tebyg i hynny o'r blaen”.

“ Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal

Nodwyd gennym fod awdurdodau lleol wedi gwella cydberthnasau amlasiantaethol yn ystod y pandemig a bod herio priodol yn cael ei annog. Roedd awdurdodau lleol yn gwahodd ac yn annog cyfranogiad gan bawb yr oedd eu hangen i gynnal adolygiadau statudol a llwyddodd rhai awdurdodau i sicrhau presenoldeb rheolaidd arweinydd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS). Dywedodd partneriaid wrthym ei bod yn haws cymryd

rhan mewn cynadleddau a chyfarfodydd rhithwir am fod llai o amser teithio i wahanol swyddfeydd ac oddi yno wedi gwneud hyn yn bosibl. Roedd cysylltiadau â'r heddlu, y sector iechyd, grwpiau cam-drin domestig a gweithwyr proffesiynol ym maes cam-fanteisio ar blant yn ddatblygedig ac wedi'u hymgorffori mewn ymarfer. Gwelsom benderfyniadau amserol a phriodol ynghylch diogelu a risg, yn enwedig mewn Hybiau Diogelu Amlasiantaethol (MASH).

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn gweithio gyda grwpiau cymunedol yn ystod y pandemig. Roeddent yn defnyddio gwirfoddolwyr fel partneriaid i gefnogi'r unigolion hynny â'r angen mwyaf yn eu cymunedau ac yn ffonio pobl ifanc, yn enwedig y rhai a oedd yn wynebu heriau iechyd meddwl, i weld a oeddent yn iawn, yn cefnogi teuluoedd i fynd ar deithiau a thripiâu undydd ac yn cefnogi brodyr a chwiorydd yn ôl yr angen.

Gwelsom hefyd waith partneriaeth mewn awdurdodau lleol rhwng meysydd addysg, chwaraeon a hamdden a gwasanaethau ac roedd llawer yn darparu wythnosau o weithgareddau er mwyn i blant sy'n derbyn gofal gael hwyl ac antur yn ystod gwyliau'r haf. Dywedodd rhieni, gofalwyr a gofalwyr a oedd yn berthnasau wrthym fod hyn o gymorth mawr am fod llawer ohonynt wedi bod yn addysgu eu plant gartref. Gwnaethant fanteisio ar y cyfle hwn i gael seibiant eu hunain.

“Pan aeth fy mhlentyn maeth i dreulio ei wythnosau yn y gwersyll haf, rhoddodd hynny gyfle i'm partner a minnau fynd am dro, cael picnic gyda'n gilydd neu wneud dim – roedd hynny wedi ein hachub yn ystod blwyddyn anodd”.

“ Dienw

Partneriaeth ac Integreiddio

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Diffyg cymorth iechyd meddwl i blant

Mae diffyg cymorth iechyd meddwl i blant o hyd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Nodwyd gennym fod camddealltwriaeth a chamgyfleu ynglŷn â rolau rhwng CAMHS a'r awdurdod lleol, gyda CAMHS yn gweithredu model clinigol, y mae rhai gweithwyr proffesiynol eraill yn ystyried ei bod yn amddiffynol ac yn ddi-fudd. Clywsom fod y trothwyon ar gyfer mynediad at wasanaethau yn uchel, fod ymyriadau yn fyr a bod cymorth yn cael ei dynnu'n ôl ar adegau pan fo'r risg o niwed yn uchel iawn. Ar nodyn cadarnhaol, gwelsom enghreifftiau calonogol lle roedd awdurdodau lleol yn defnyddio ffrydiau cyllid i gyflog seicolegwyr a therapyddion ymddygiadol i gefnogi plant a phobl ifanc ac roedd rhai wedi llwyddo i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ag arweinydd ein gwasanaeth CAMHS lleol a oedd yn cyfrannu at y cyfarfodydd angenrheidiol.

Ymarfer

Yn Rhondda Cynon Taf, roedd y Llwybr Llesiant Integredig a ddatblygwyd rhwng gwasanaethau plant, y sector addysg a gwasanaethau cynhwysiant a darparwyr gwasanaethau cwnsela yn sicrhau bod plant yr oedd angen eu diogelu yn cael eu cefnogi drwy gydol y pandemig. Yn yr un modd, mae'r ffaith bod cynrychiolydd o CAMHS wedi'i leoli yn yr Hyb Cymorth Cynnar, ochr yn ochr â chynrychiolwyr o asiantaethau eraill, yn fuddiol i blant a theuluoedd.

Lle mae awdurdodau lleol wedi llwyddo i sicrhau cymorth CAMHS ar gyfer paneli lleoliadau, mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, eithriad yn hytrach na'r rheol yw hwn.



Llesiant

CANFYDDIAD ALLWEDDOL

● Parhawyd i weithio'n uniongyrchol gyda phlant yn ystod y pandemig

Gwelsom amrywiaeth eang o ddulliau yn cael eu defnyddio gan staff i gadw mewn cysylltiad â phlant yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys mynd am dro yn y parc, cael picnic yn yr awyr agored, gemau a chwisiau llawn hwyl ar-lein. Cafodd plant yr oedd angen cymorth dwys arnynt eu blaenoriaethu ar gyfer cyswllt ac ymwelwyd â llawer ohonynt wyneb yn wyneb lle roedd angen ac yn unol â chyfyngiadau COVID-19. Nodwyd gennym fod gwaith uniongyrchol cadarnhaol gyda llawer o blant wedi parhau drwy gydol y pandemig. Mae adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer gwaith straeon bywyd mewn llawer o awdurdodau lleol ac mae llyfrau ar-lein yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau na chaiff atgofion na cherrig milltir allweddol plant eu colli. Pwysleisiodd gofawyr maeth bwysigrwydd y gwaith hwn i sicrhau bod plant yn pontio'n dda i fod yn oedolion iach.

Recriwtio gofawyr maeth

Gwelsom rai enghreifftiau da o awdurdodau lleol yn parhau i recriwtio a chymeradwyo gofawyr maeth er mwyn diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal er gwaethaf heriau'r pandemig. Roedd awdurdodau lleol yn defnyddio llwyfannau creadigol a rhithwir i annog unigolion i gyflwyno ceisiadau yn ogystal ag ymgyrchoedd wedi'u targedu. Mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi cymhellion, er enghraifft, gostyngiad yn y dreth gyngor, mynediad am ddim i gampfeydd a chyfleusterau nofio er mwyn cadw gofawyr maeth presennol ac annog ceisiadau newydd. Bydd rhaglenni sefydlu a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu drwy lwyfannau ar-lein ac roedd cyswllt mwy rheolaidd yn cael ei gynnig i bob gofalwr maeth.

Roedd pob awdurdod lleol yn gweithio'n galed i annog amrywiaeth o bobl i wneud cais i fod yn ofalwr maeth er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Gwnaethom gyfarfod â gofawyr maeth unigol sengl, gofawyr maeth o wahanol gefndiroedd ethnig a diwylliannol, gofawyr maeth o'r un rhyw a gofawyr maeth yr oedd y Gymraeg yn famiaith iddynt. Effaith hyn oedd bod plant yn cael cynnig mwy o ddewis. Gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl ifanc yr oedd y Gymraeg yn famiaith iddynt yn cael eu paru â gofawyr maeth Cymraeg eu hiaith. Lle roedd pobl ifanc yn dod o gefndiroedd ethnig gwahanol, roeddent yn gallu dewis gofawyr a oedd yn rhannu'r un grefydd neu ddiwylliant â nhw. Roedd hyn hefyd yn wir mewn ardaloedd gwledig lle y gellid paru gofawyr maeth a oedd wedi'u recriwtio o gefndiroedd amaethyddol â phlant o amgylchiadau tebyg. Mae rheolwyr a thimau maethu yn ceisio paru plant a phobl ifanc â'r gofalwr/teulu maeth a gwelsom yn aml mai'r her anoddaf i dimau oedd sicrhau bod gofawyr maeth yn gallu cefnogi'r plant mwyaf cymhleth y gallai eu hymddygiadau newid yn aml.

Ymarfer

Mae Rhondda Cynon Taf wedi datblygu cynllun GofaliWaith sy'n ymgysylltu â phobl ifanc mewn gofal ac yn eu paratoi i fanteisio ar gyfleoedd i gael addysg bellach, cyflogaeth a gwaith. Mae'r cynllun yn cynnig sesiynau ysgrifennu CV, ymarfer cyfweled a sgiliau cyflwyno, gyda chyfraddau llwyddo ardderchog.

Ymarfer

Roedd Caerffili wedi llwyddo i recriwtio 13 o ofalwr maeth ac roedd 19 o geisiadau eraill wrthi'n cael eu hasesu. Mae'r tîm maethu wedi defnyddio amrywiaeth o fentrau megis Facebook, y radio a'r teledu i recriwtio. Roedd hyfforddiant, trefniadau goruchwyllo a phaneli rhithwir i gyd wedi helpu i sicrhau nad oedd oedi wrth sicrhau penodiadau ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn.

Llesiant

Bu oedi cyn cynnal asesiadau iechyd yn ystod y pandemig

O ganlyniad i'r pandemig, bu rhywfaint o oedi cyn cynnal asesiadau o iechyd plant sy'n derbyn gofal a llunio Cynlluniau Addysg Personol (CAP).


Cafodd llawer o staff iechyd eu symud o'r gymuned i faes gofal eilaidd i gyflawni dyletswyddau yn ymwneud â COVID-19. Felly, nid oedd asesiadau o iechyd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried mor fanwl ag o'r blaen. Mae nifer o awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd wedi nodi a chydabod anghenion penodol y bobl ifanc hyn yn gyflym ac wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod asesiadau yn parhau i gael eu cynnal er mwyn rhoi'r gofal a'r cymorth gorau i'r bobl ifanc hyn.

Pan oedd ysgolion yn cau roedd cynlluniau addysg personol yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro ac roedd rhywfaint o bryder, pan ailagorodd ysgolion, fod angen diweddarau cynlluniau addysg personol yn gyflym. Mae awdurdodau lleol wedi sôn am y cymorth a oedd yn cael ei gynnig gan eu partneriaid addysg er mwyn hyrwyddo mynediad i addysg ar gyfer pob plentyn a sicrhau bod y plant hynny roedd angen eu diogelu fwyaf yn cael eu monitro.

Soniodd llawer o awdurdodau lleol wrthym am achosion lle roedd asesiadau meddygol o ofalwyr maeth gan feddygon teulu wedi cael eu gohirio. Roedd yn anodd i reolwyr gysylltu â meddygon teulu er mwyn cael yr asesiadau meddygol angenrheidiol i brosesu ceisiadau i fod yn ofalwyr maeth. Pe na byddent wedi gallu cynnal yr hunanasesiadau meddygol, y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, byddai'r broses o recriwtio gofalwyr maeth newydd wedi cael ei harafu a byddai plant wedi cael eu rhoi o dan anfantais. Ers hynny mae'r sefyllfa wedi gwella.

Mae angen mwy o gymorth pan fydd trefniadau mabwysiadu yn chwalu

Mae adnoddau ac egni ar gael er mwyn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu mabwysiadu. Fodd bynnag, dywedodd rheolwyr wrthym y gall yr ôl-ofal a'r cymorth fod yn gyfyngedig pan fydd trefniadau mabwysiadu yn chwalu. Mae hyn wedyn yn creu profiad negyddol i blant gan y gallent ddioddef trawma dwbl. Mae angen i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac awdurdodau lleol ystyried sut y gellir gwella'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu pan fydd teuluoedd yn cysylltu â nhw i ofyn am gymorth er mwyn atal trefniadau mabwysiadu rhag chwalu.



ATODIAD 1

Methodologia Data




METHODOLEG A DATA

- Ar y cyfan, gwnaethom olrhain ac adolygu hyd at 5000 o ffeiliau achos. Gan ddefnyddio ein fframwaith graddau mewnol, barnwyd bod y mwyafrif o achosion yn 'Dda' neu'n 'Ddigonol'. Barnwyd bod nifer bach o achosion yn ardderchog a barnwyd bod lleiafrif o achosion yn 'Wael' neu'n 'Annigonol' ar gyfer gwasanaethau roedd angen eu gwella (Ffigur 1).
- Gwnaethom gynnal ein harolygiadau gan ddefnyddio pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel ein fframwaith. Barnwyd bod y mwyafrif o'r graddau ar gyfer y pob un o'r egwyddorion yn 'Dda' neu'n 'Ddigonol'. Roedd hyd at 8% o'n dyfarniadau yn nodi 'angen ei wella' ym mhob un o'r pedair egwyddor (Ffigurau 2-5).
- Gwnaethom gwblhau 85 o adnoddau gwerthuso i gofnodi ein tystiolaeth yn uno â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- WGwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol cyn ein hymweliadau.
- Gwnaethom siarad â 150 o ofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu a oedd wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o'r system gofal.
- Gwnaethom gynnal nifer mawr o gyfweiliadau a grwpiau ffocws ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol – gan gynnwys staff awdurdodau lleol, ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, darparwyr gwasanaethau, rheolwyr, penaethiaid gwasanaethau mewn awdurdodau lleol, cyfarwyddwyr, aelodau etholedig a phartneriaid, cynrychiolwyr o'r heddlu a'r sector addysg a'r trydydd sector.
- Gwnaethom weinyddu arolygon er mwyn rhoi cyfle i gyflogeion gwasanaethau cymdeithasol, rhieni a gofalwyr, pobl a oedd wedi profi gofal a chymorth, darparwyr ac asiantaethau partner perthnasol, roi adborth ar awdurdodau lleol.


Graddau mewnl AGC ar gyfer pob Arolygiad

Ffigur 1.




Graddau mewnl AGC ar gyfer y prif ddyfarniad – Pobl

Ffigur 2.




Graddau mewnl AGC ar gyfer y prif ddyfarniad – Atal

Ffigur 3.




Graddau mewnl AGC ar gyfer y prif ddyfarniad – Partneriaeth ac Integreiddio

Ffigur 4.



Graddau mewnl AGC ar gyfer y prif ddyfarniad – Llesiant

Ffigur 5.



ATODIAD 2

Llythyrau Gwerthuso Perfformiad
a Archwiliadau Sicrwydd

Mae'r llythyrau hyn yn crynhoi canfyddiadau ein rhaglen archwiliad sicrwydd cenedlaethol a gynhaliwyd rhwng Medi 2020 a Gorffennaf 2021.

Pwrpas y archwiliadau sicrwydd oedd adolygu pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn parhau i helpu oedolion, plant a gofalwyr ar yr adeg anodd hon a'u cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau i'r dyfodol.

Canolbwyntiwyd ar:

01. Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol i gadw pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, yn ddiogel ac yn hyrwyddo eu lles yn ystod y pandemig.
02. Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn atal yr angen i blant ddod i mewn i ofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle maent yn ddiogel i wneud hynny.

Camau nesaf

Disgwyliwn i'r meysydd gwella a nodwyd gennym gael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdodau lleol. Byddwn yn monitro cynnydd trwy ein gweithgaredd gwerthuso perfformiad parhaus gyda'r awdurdodau lleol.

I weld ein holl ganfyddiadau ac argymhellion, darllenwch y llythyrau llawn [yma](#).



